Arolygiaeth Prawf EM

Arolygiad o'r gwasanaethau prawf yn:

# Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf, Gwent, rhanbarth Cymru

## Y Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Cymru

Arolygiaeth Prawf EM, Chwefror 2022

# Cynnwys

**Rhagair** .......... **3**

**Sgoriau** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **6**

**Cefndir** .......... **7**

**1. Darpariaeth sefydliadol** .......... **8**

**2. Gwaith llys a goruchwylio achosion** .......... **24**

**Atodiad un – Cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol** .......... **35**

**Atodiad dau – Data** .......... **41**

**Atodiad tri – Dolenni Gwe** .......... **53**

## Cydnabyddiaeth

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EM Laura Frampton, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a chyd-weithwyr o bob rhan o'r Arolygiaeth. Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran mewn unrhyw ffordd yn yr arolygiad hwn. Heb eu cymorth a'u cydweithrediad, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosib.

### Rôl Arolygiaeth Prawf EM

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ydy arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid gydag oedolion a phlant.

Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu. Rydym yn tynnu sylw at arferion da a gwael, ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau o ansawdd uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth, ac yn siarad yn annibynnol.

Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw'r unigolion dan sylw.

Dechreuodd y gwaith maes ar gyfer arolwg Gwent ar 01 Tachwedd 2021.

© Hawlfraint y Goron 2022

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence

neu anfonwch e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn:
www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

ISBN 978-1-914478-55-0

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf EM
Llawr 1af Canolfan Llysoedd Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter
@hmiprobation

# Rhagair

Hwn yw dim ond yr ail arolygiad o Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf (PDU) a gynhaliwyd gan ddefnyddio ein methodoleg newydd, a ddatblygwyd ar ôl integreiddio Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC) a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) yn un gwasanaeth prawf unedig ym mis Mehefin 2021. Mae'r fethodoleg newydd yn cynnwys cysylltiadau cryfach rhwng ein dyfarniadau ar ddarpariaeth sefydliadol a gwaith achos. Mae sgoriau gwael mewn gwaith achos yn cyfyngu ar y sgoriau gallwn eu rhoi am ddarpariaeth sefydliadol ac rydym wedi gweld tystiolaeth o hyn yn y sgoriau a roddwyd yn yr arolygiad o PDU Gwent.

Cymerwyd y cam o uno'r gwaith rheoli dedfrydau yn gynharach yng Nghymru nag yn Lloegr, a hynny ym mis Rhagfyr 2019. Fodd bynnag, dim ond tri mis yn ddiweddarach, ar ddiwedd mis Mawrth 2020, tarodd pandemig Covid-19. O ganlyniad i hynny, mae'r gwasanaeth wedi gorfod cyfyngu mynediad at swyddfeydd, lleihau'r cyswllt wyneb yn wyneb â phobl ar brawf, lleihau capasiti gwaith grŵp, gwaith di-dâl ac ymyriadau, a rheoli'r prinder staff sydd wedi effeithio'n drwm ar y PDU hon. Ni ddylid bychanu effaith graddfa'r newid y mae'r gwasanaeth wedi gorfod llywio drwyddo. Byddai rheoli'r uno neu bandemig Covid-19 ar eu pen eu hunain wedi bod yn heriol. Roedd y 24 mis cyn yr arolygiad yn ddigynsail ac rydym yn canmol staff ar bob lefel sydd wedi parhau i ddarparu'r gwasanaeth cyhoeddus hollbwysig hwn yn wyneb adfyd.

Mae'r cysylltiadau strategol yng Ngwent cyn gryfed ag erioed, mae pob safle ar draws y PDU wedi cael eu diogelu yn erbyn Covid-19, ac mae'r gwasanaeth wedi ymdrechu i barhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Ond mae hynny wedi bod yn heriol ac rydym wedi gweld bod diffygion ym mhob elfen o waith achos. Yr hyn sy'n peri pryder penodol yw'r diffygion o ran y gwaith sy'n cael ei wneud i reoli peryglon posib pobl ar brawf i'r cyhoedd – gan gynnwys eu teuluoedd eu hunain. Rydym yn derbyn bod cyfyngiadau Covid-19 wedi effeithio ac yn dal i effeithio ar y math o gyswllt a hyd y cyswllt sy'n bosib rhwng y gwasanaeth a phobl ar brawf. Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau hyn rydym yn disgwyl gweld bod gwaith sy'n gysylltiedig â'r risg o niwed a diogelu yn cael ei flaenoriaethu. Gwelsom ormod o lawer o enghreifftiau lle nad oedd hyn yn digwydd.

Roedd gwahaniaethau pwysig a phryderus yn sgoriau achosion a oedd yn destun gorchmynion cymunedol, a'r rhai ar drwydded ôl-ryddhau. Roedd y rhai a oedd yn destun trwydded ôl-ryddhau, yn ogystal ag achosion yr aseswyd eu bod yn peri risg uchel o niwed difrifol, yn cael sgoriau gwell yn aml ac yn cael eu hasesu fel bod yn ddigonol yn amlach. Mae lle i wella yn yr achosion hyn o hyd, ond rhaid rhoi blaenoriaeth glir i godi safon y gwaith a wneir gyda'r llwyth achosion gorchmynion cymunedol.

Mae PDU Gwent, fel yr holl wasanaethau prawf ledled Cymru a Lloegr, yn parhau i'w chael hi'n anodd darparu rhaglenni achrededig, ymyriadau strwythuredig a gwaith di-dâl. Mae hyn yn deillio o natur wledig y PDU, prinder lle ar gyfer darparu a chyfyngiadau parhaus Covid-19. Ond, 18 mis ers dechrau'r pandemig, mae'r ôl-groniadau parhaus a'r oedi wrth gyflawni gorchmynion gwaith di-dâl a rhaglenni ymddygiad troseddol achrededig yn bryderus iawn. Er ein bod yn cefnogi'r ymdrechion parhaus i leihau'r ôl-groniadau hyn, mae canfyddiadau ein harolygiad yn dangos pa mor bwysig yw defnyddio dewisiadau eraill addas a sicrhau eu hansawdd yn briodol i wneud yn siŵr bod hanfodion darpariaeth gwasanaethau'n cael eu cynnal.

Rydym yn cydnabod y bydd canlyniadau'r arolygiad hwn yn destun siom i'r PDU. Fodd bynnag, mae gwaith da yn cael ei wneud ganddi wrth iddi barhau i adfer o bandemig Covid-19 a delio â'r broses o gyflwyno'r model unedig newydd. O hyn ymlaen, mae angen canolbwyntio o'r newydd ar hanfodion darpariaeth gwasanaethau prawf, gan roi rhagor o bwyslais ar rannu gwybodaeth â rhanddeiliaid allweddol er mwyn diogelu pobl. Rydym yn awyddus i weld y PDU yn cael cymorth gan y timau rhanbarthol a chenedlaethol i fynd i'r afael â'r problemau staffio di-baid yng Ngwent. Dylai hyn fod yn fan cychwyn pwysig o ran gwella lefel ac ansawdd darpariaeth gwasanaethau, a dychwelyd i'r safon gwaith yr ydym yn gwybod y gall rhanbarth Cymru ei chyrraedd.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf

# Sgoriau

| | | |
|---|---|---|
| Uned Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf, Gwent | Sgôr | **6/27** |
| **Sgôr gyffredinol** | **Angen gwella** | |
| **1. Darpariaeth sefydliadol** | | |
| 1.1 Arweinyddiaeth | Angen gwella | |
| 1.2 Staff | Annigonol | |
| 1.3 Gwasanaethau | Annigonol | |
| 1.4 Gwybodaeth a chyfleusterau | Angen gwella | |
| **2. Gwaith llys a goruchwylio achosion** | | |
| 2.1 Gwaith llys | Rhagorol | |
| 2.2 Asesu | Annigonol | |
| 2.3 Cynllunio | Angen gwella | |
| 2.4 Gweithredu a darparu | Annigonol | |
| 2.5 Adolygu | Annigonol | |

## Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion y credwn, os cânt eu gweithredu, y byddant cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaethau prawf.[1]

**Dylai PDU Gwent wneud y canlynol:**

1. gwella'r trefniadau rhannu gwybodaeth i ddylanwadu ar asesiadau ac adolygu'r risg o niwed, gan gynnwys yn y cam adroddiad cyn dedfrydu
2. gwella ansawdd y gwaith o ran asesu, rheoli ac adolygu'r risg o niwed
3. gwella effeithiolrwydd goruchwyliaeth gan reolwyr a gwaith sicrhau ansawdd ar gyfer yr holl waith achos
4. sicrhau bod yr ymyriadau sydd eu hangen i wella ymataliad a lleihau aildroseddu, a'r risg o niwed, yn cael eu darparu ym mhob achos
5. sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth rheoli achosion yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r amser i wneud y gwaith yn effeithiol.

**Dylai'r Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Cymru wneud y canlynol:**

6. sicrhau bod gwaith monitro perfformiad yn rhoi mwy o bwyslais ar effeithiolrwydd ac ansawdd darpariaeth gwasanaethau.

**Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM wneud y canlynol:**

7. sicrhau bod lefelau staffio digonol yn cael eu pennu a'u cyflawni yn y PDU a'r rhanbarth
8. mynd i'r afael â'r 14 i 16 wythnos o oedi wrth fetio staff newydd a phresennol, a lleihau'r cyfnod hwn yn sylweddol
9. datrys y diffyg presennol o ran darparu rhaglenni achredig a sicrhau bod ansawdd yr ymyriadau a gynigir fel dewis arall yn cael ei sicrhau'n effeithiol
10. sicrhau bod y mesurau y mae'r Bwrdd Rheoli Galw Cenedlaethol yn cytuno arnynt yn rhoi blaenoriaeth i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, ac adolygu effaith y mesurau hynny'n rheolaidd.

---

[1] Mae cynnydd yn erbyn argymhellion arolygiadau blaenorol ar gyfer y CRC neu'r Is-adran NPS perthnasol wedi'i gynnwys yn Atodiad un.

# Cefndir

### Uned Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf, Gwent

Mae Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf (PDU), Gwent yn un o chwe PDU yn rhanbarth ehangach Cymru. Y rhai eraill yw PDU Gogledd Cymru, PDU Dyfed Powys, PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot, PDU Cwm Taf Morgannwg, a PDU Caerdydd a'r Fro.

Mae PDU Gwent yn darparu ar gyfer pum ardal awdurdod lleol – Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen – ac yn cynnwys un carchar sector cyhoeddus (Carchar EM Brynbuga/Prescoed). Mae'n cael ei blismona gan Heddlu Gwent. Mae'n cynnwys cymysgedd o gymunedau gwledig a threfol, a llwybrau allweddol fel yr M4 drwy dde Cymru a'r prif lwybr o i Gymru o Loegr – Ail Groesfan Hafren.

Ym mis Tachwedd 2021, 13,363 oedd cyfanswm llwyth achosion rhanbarth prawf Cymru, yn cynnwys 7,076 o unigolion dan oruchwyliaeth yn y gymuned, 3,748 o achosion ôl-ryddhau a 2,539 achos arall yn destun goruchwyliaeth cyn rhyddhau. 2,482 oedd cyfanswm llwyth achosion PDU Gwent.

Mae gan PDU Gwent amrywiaeth o drefniadau partneriaeth gan gynnwys Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, Bwrdd Strategol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) De Cymru, a Bwrdd Diogelu Gwent, heb fod yn gyfyngedig i'r rhain. Mae gan lawer o'r rhain is-grwpiau lleol hefyd.

Ers mis Mehefin 2021, yn gyson â'r model gweithredu targed newydd, mae'r Gwasanaeth Prawf wedi comisiynu darparwyr allanol i ddarparu gwasanaethau. Yn PDU Gwent, mae cymorth llety yn cael ei ddarparu gan The Forward Trust (ond nid ydynt yn darparu llety eu hunain), mae Ymddiriedolaeth St Giles yn darparu cymorth lles i bobl ar brawf, ac mae Maximus yn darparu addysg a hyfforddiant cyflogaeth. Roedd y sampl achosion a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolygiad hwn yn ymwneud yn rhannol â chyfnod pan oedd PDU Gwent yn dal i weithredu o dan fodel darparu eithriadol lefel-goch (EDM), gan gyfyngu ar y cyswllt a oedd yn cael ei gynnig i bobl ar brawf, yn enwedig wyneb yn wyneb. Roedd yr EDM ar waith yn dilyn cychwyn pandemig Covid-19. Roedd yn mynnu bod y Gwasanaeth Prawf yn ystyried darparu yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd a'r llywodraeth. Roedd hyn hefyd yn effeithio ar ddarparu gwaith di-dâl a rhaglenni achrededig.

# 1. Darpariaeth sefydliadol

Mae pennaeth a dirprwy bennaeth Uned Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf (PDU), Gwent yn amlwg ac mae'n hawdd mynd atynt; mae cryn barch iddynt ymysg staff ar bob gradd ac ymysg asiantaethau partner. Mae cyswllt strategol effeithiol rhwng y rhanbarth a PDU, yn ogystal â chysylltiadau strategol da â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol ar draws ardal Gwent. Mae effaith pandemig Covid-19 yn amlwg ar draws y PDU, a hynny ar bob gradd a gan bob partner. Mae'r adferiad o'r pandemig wedi cael ei arafu gan brinder staff dilynol. Er hynny, mae'r staff yn adrodd eu bod yn teimlo bod diwylliant agored yn y PDU lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel yn herio, a bod y PDU yn cefnogi ansawdd er gwaethaf yr heriau staffio. Fodd bynnag, er ymdrechion arweinwyr i roi gwybod i'r staff am newidiadau, dim ond 57 y cant o'r 26 ymatebydd yn ein harolwg staff a oedd yn teimlo bod newidiadau'n cael eu cyfathrebu a'u gweithredu'n effeithiol.

Er bod gan arweinyddiaeth PDU Gwent gryfderau clir, mae data rheoli achosion parth dau yn dangos nad yw effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth hon wedi arwain at ddarparu gwasanaethau mewn modd effeithiol eto, yn enwedig o ran rheoli'r risgiau posib mae pobl yn eu llwyth achosion yn eu peri i bobl eraill. Yn ein hadolygiadau o achosion ar draws tri o'r safonau parth dau – asesu, gweithredu ac adolygu – barnwyd bod llai na hanner yr achosion wedi canolbwyntio'n ddigonol ar y risg o niwed. Yn y safon arall – cynllunio – roedd y ffigur hwn ychydig dros hanner, ar 55 y cant. Yn ein hadolygiad o achosion, roedd gwaith ôl-ryddhau wedi cael sgôr uwch na gwaith ar achosion cymunedol dros hanner yr amser.

Er nad yw'n ymddangos bod llwyth achosion cyfartalog ar draws y PDU yn ormodol wrth ystyried yr adnodd mesur llwyth gwaith, dywedodd 80 y cant o'r ymatebwyr i'n harolwg nad yw'n bosib rheoli eu llwyth gwaith. Cafodd hyn ei adleisio yn ein cyfweliadau â staff ar bob gradd, a ddisgrifiodd y sefyllfa fel bod "y gwaethaf mae wedi bod erioed" a bod yn agos i "fod wedi ymlâdd yn llwyr". Er bod staff yn cydnabod y cymorth gan eu rheolwr, ac yn wir gan bennaeth y PDU, mae'n amlwg bod problem staffio enbyd ac ni ddylid bychanu difrifoldeb y broblem hon o ran ei heffaith ar les staff.

Mae problemau staffio presennol, yn enwedig y gyfradd trosiant staff, yn cynyddu'r pwysau ar staff gweinyddol yn sylweddol. Yn ogystal â hynny, dywedodd rhai o'r dysgwyr Cymhwyster Proffesiynol mewn Gwaith Prawf (PQiP) eu bod wedi cael eu defnyddio i gymryd lle swyddogion gwasanaethau prawf yn hytrach na chael y cyfleoedd dysgu PQiP sydd eu hangen arnynt, oherwydd "mae'n rhaid i'r achosion hyn fynd i rywle".

Mae gan uwch swyddogion prawf lwyth gwaith sylweddol, gan adrodd bod agweddau ar reoli staff, fel atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol a gwaith rheoli absenoldebau, yn gofyn am ran sylweddol o'u hamser. O ganlyniad, mae goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar achosion, goruchwyliaeth fyfyriol a goruchwyliaeth rheolwyr dros waith rheoli dedfrydau wedi dioddef. O ganlyniad i'r problemau staffio ar draws y PDU a'r llwythi gwaith canlynol, dywedodd y rheolwyr wrthym ni "mae pobl bron ag ymlâdd. Ry'n ni'n nofio yn ein hunfan."

Nid yw safbwyntiau pobl ar brawf yn cael eu ceisio'n rheolaidd i helpu i ddadansoddi, adolygu a datblygu gwasanaethau. Er bod cynlluniau cynnar ar waith i wella hyn, mae'n fwlch sylweddol. Nid yw trefniadau agweddau allweddol ar ddarparu gwasanaethau, yn benodol cyfnewid gwybodaeth am risg a ddiogelu, yn gweithio mor effeithiol ag y mae angen iddynt er mwyn hybu ymataliad a diogelu'r cyhoedd

yn effeithiol. Ni welsom ddull cyson o rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau hysbysadwy a dull dryslyd o ddefnyddio canolfannau diogelu amlasiantaeth. Roedd partneriaid yn adrodd diffyg presenoldeb y Gwasanaeth Prawf ynddynt.  Mae'r gwaith o gyflwyno'r Gofrestr o Droseddwyr Treisgar a Throseddwyr Rhyw, a'r defnydd ohoni, wedi cael ei oedi hefyd yn unol â'r model cyflawni eithriadol rhanbarthol. Mae gorddibyniaeth ar staff gweinyddol yn defnyddio'r adnodd gwerthfawr hwn, yn hytrach na staff rheoli achosion.

**Cryfderau:**

- Mae pennaeth PDU Gwent yn arweinydd amlwg sy'n dangos ei fod yn fodlon dysgu, gwrando a datblygu gwasanaethau lle bo hynny'n bosib.
- Mae gan dîm arwain PDU Gwent gysylltiadau cryf â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, ac mae'r cysylltiadau hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth a'r strategaeth.
- Yn ein harolwg staff, dywedodd 64 y cant o'r ymatebwyr fod y sefydliad yn blaenoriaethu ansawdd a chadw at dystiolaeth y rhan fwyaf o'r amser. Dywedodd 18 y cant fod y sefydliad yn gwneud hynny bob amser. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn ein cyfarfodydd â staff, lle roedd teimlad o flaenoriaethu ansawdd er gwaethaf yr amgylchedd gwaith heriol.
- Adroddodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan eu cyd-weithwyr.
- Mae cysylltiadau da ag asiantaethau partner ar bob lefel er mwyn cefnogi ymataliad drwy fynediad at wasanaethau.
- Mae dull strategol o sicrhau bod swyddfeydd yn ddiogel ac mae'r PDU wedi gwneud ymdrech glir i gynyddu ymgysylltiad staff a phobl ar brawf mewn swyddfeydd.

**Meysydd i'w gwella:**

- Byddai'r cyfathrebiadau â staff am pam mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud yn gallu bod yn gliriach.
- Dylai pobl ar brawf ddylanwadu i raddau mwy ar gynlluniau cyflawni.
- Roedd adborth o'r arolwg staff yn dangos bod 100 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod y lefelau staffio yn annigonol. Cafodd hyn ei adleisio gan y staff y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n grwpiau ffocws. Roedd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn disgrifio'r sefyllfa fel bod "y gwaethaf mae wedi bod erioed" a dweud eu bod yn agos i "fod wedi ymlâdd yn llwyr".
- Mae merched wedi'u gorgynrychioli ym mhroffil staff PDU Gwent. Mae unigolion ag anabledd wedi'i ddatgan yn ogystal â phobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol wedi'u tangynrychioli yn y gweithlu.
- Nid yw safbwyntiau pobl ar brawf yn cael eu ceisio'n rheolaidd i helpu i ddadansoddi, adolygu a datblygu gwasanaethau.
- Nid yw trefniadau agweddau allweddol ar ddarparu, yn benodol cyfnewid gwybodaeth am risg a diogelu, yn gweithio mor effeithiol ag y mae angen iddynt er mwyn hybu ymataliad a diogelu'r cyhoedd yn effeithiol.

## 1.1. Arweinyddiaeth

| | |
|---|---|
| Mae arweinyddiaeth yr Uned yn golygu bod modd darparu gwasanaeth ymatebol, personol o safon uchel i bawb sydd ar brawf. | Angen gwella |

Wrth lunio barn am arweinyddiaeth, rydym yn ystyried yr atebion i'r tri chwestiwn canlynol, yn ogystal â chanlyniadau ein hadolygiad o achosion yn erbyn y safonau parth dau. Un o elfennau allweddol arweinyddiaeth yw'r gallu i sicrhau canlyniadau yn ymarferol ac felly rydym yn gweithredu rheol penderfyniad, sy'n golygu os yw canlyniadau holl feysydd y safon parth dau yn annigonol neu fod angen eu gwella, yr unig sgôr y gellir ei roi i'r perfformiad yn erbyn y safon arweinyddiaeth yw annigonol neu angen gwella. Mae'r rheol penderfynu honno ar waith ar gyfer PDU Gwent, sydd wedi arwain at sgôr 'angen gwella' ar gyfer arweinyddiaeth.

**A yw gweledigaeth a strategaeth tîm arwain yr Uned yn gyrru'n effeithiol y gwaith o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bawb sydd ar brawf?**

Mae'r weledigaeth a'r strategaeth i weithio mewn partneriaeth, lleihau aildroseddu, diogelu'r cyhoedd a chefnogi grwpiau agored i niwed wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Lleihau Aildroseddu. Mae'r cynllun yn ymrwymo i ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth i ddatblygu pecyn ymyriadau drwy gyfrwng y Panel Ymyriadau Effeithiol. Mae Cynllun Busnes Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru yn amlinellu'r pedair egwyddor a ddefnyddir i gyflawni'r strategaeth – galluogi pobl i wneud eu gorau, moderneiddio ein hystad a'n technoleg, diwylliant dysgu agored, a thrawsnewid drwy bartneriaethau.

Mae'r Bwrdd Panel Dadansoddi Ymchwil Integredig yn Rheoli Integredig Troseddwyr (IOM) Cymru yn edrych ar dystiolaeth empirig i roi sylw i leihau'r llwybrau aildroseddu. Mae'r Strategaeth Ymarfer Effeithiol yn nodi chwe blaenoriaeth datblygu ansawdd, lle mae pob PDU yn arwain blaenoriaeth yr un – mae Gwent yn arwain y gwaith o wella gweithrediad cynlluniau rheoli risg a chynlluniau dedfryd. Er hyn, yn ein hadolygiad o'r achosion ym mharth dau, dim ond 55 y cant o gynlluniau a oedd yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddiogelu pobl a dim ond 38 y cant o'r gwaith gweithredu a darparu gwasanaethau sy'n cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol.

Gellir gweld tystiolaeth o'r cyswllt strategol rhwng Gwent a rhanbarth ehangach Cymru yng Nghynllun Busnes Gwasanaeth Prawf Cymru. Mae canolbwyntio ar ansawdd ac ymarfer effeithiol yn weledigaeth a rennir yn y cynlluniau cyflawni lleol a rhanbarthol. Mae gwybodaeth am berfformiad yn cael ei chasglu a'i dadansoddi ar lefel ranbarthol a lefel y PDU, a dangosodd pennaeth y PDU ddealltwriaeth glir o'r gwahaniaethau bach mewn cysylltiad â pherfformiad. Mae'r grŵp dysgu ymarfer gorau yn fenter sydd wedi hen ennill ei phlwyf yn PDU Gwent ac mae'n cael ei hategu gan borth ymarfer Microsoft Teams. Caiff gweithdai ar ddarnau penodol o waith eu cynnal gan ymarferwyr prawf ac er bod y rhain wedi'u hanelu at ddysgwyr PQiP, maen nhw ar gael i'r holl staff prawf. Mae'n ymddangos bod dealltwriaeth dda o ddysgu a geir drwy droseddau difrifol pellach, adolygiadau o achosion difrifol neu adolygiadau o laddiadau domestig, ac mae enghreifftiau o hyfforddiant amlasiantaeth yn cael ei ddarparu i staff ac i bartneriaid mewn ymateb i'r digwyddiadau hyn.

Roedd rhanddeiliaid allweddol ac asiantaethau partner yn siarad yn gyson am eu perthynas gref â'r PDU, ac roeddent wedi darparu enghreifftiau o'u gwaith ar y cyd yn gwella darpariaeth ac ansawdd gwasanaethau, yn hybu ymataliad ac yn helpu i leihau'r risg o niwed difrifol. Yr hyn sy'n hollbwysig i weithrediad strategol y weledigaeth yw rhanddeiliaid allweddol y mae tîm arwain y PDU yn ymgysylltu â nhw. Gwelsom dystiolaeth gref o hyn yn IOM Cymru – yn ei berthynas â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ac ag awdurdodau lleol drwy'r fenter Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).

Mae angen i'r PDU wella'r ffordd mae'n rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau hysbysadwy ac am risg a diogelu. Fodd bynnag, mae cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys system heddlu ar y cyd i roi mynediad i ymarferwyr prawf at ddigwyddiadau hysbysadwy ac i integreiddio ymarferwyr prawf yn y ganolfan ddiogelu amlasiantaeth. Mae'r system hon yn darparu ar gyfer y pum awdurdod lleol yn ardal PDU Gwent.

Mae'r PDU yn dylanwadu'n effeithiol ar lysoedd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth a'r strategaeth. Dylanwadir arnynt ar lefel ranbarthol drwy'r trefniadau ehangach Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, ac yn lleol mae tystiolaeth glir o ymgysylltu drwy'r fforwm dedfrydwyr strategol a chylchlythyr dedfrydwyr rheolaidd.

Mae dull strategol o ddiwallu anghenion amrywiol yn amlwg ar lefel ranbarthol drwy'r system Gweithrediadau, Adsefydlu, Atgyfeirio a Gwerthuso Canolog (CORRE). Dylanwadir ar gyflenwyr ar lefel ranbarthol drwy drefniadau comisiynu.
Ar lefel leol, caiff hyn ei ddangos drwy ddarparu ystod o brosiectau allgymorth Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent, a phrosiect Cyfannol i weithwyr rhyw.

Mae'n amlwg i ba raddau y mae tîm arwain y PDU yn cyfrannu ac er ei bod yn ymddangos bod mentrau amrywiaeth fel Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn cael eu datblygu ar lefel ranbarthol yn hytrach nag ar lefel leol, mae mentrau lleol yn cael eu datblygu gan bennaeth y PDU hefyd, er enghraifft mewn cysylltiad â'r gwaith ar anghymesuredd galw'n ôl.

Er bod arweinyddiaeth gref a gwaith strategol cadarnhaol ar draws y PDU, mae ein hadolygiad o achosion ym mharth dau yn dangos nad yw trefniadau effeithiol a chynlluniau cyflawni lleol clir wedi trosi'r weledigaeth a'r strategaeth yn ymarfer ar y rheng flaen, yn enwedig mewn cysylltiad â diogelu pobl eraill. Yn ein hadolygiadau o achosion ar draws tri o'r pedwar parth – asesu, gweithredu ac adolygu – barnwyd bod llai na hanner yr achosion wedi canolbwyntio'n ddigonol ar ddiogelwch. Yn y parth arall – cynllunio – roedd y ffigur hwn ychydig dros hanner, ar 55 y cant.

### A yw risgiau posib i ddarpariaeth gwasanaethau yn cael eu rhag-weld a gwaith cynllunio'n cael ei wneud ymlaen llaw ar eu cyfer?

Symudwyd i wasanaeth unedig ar gyfer rheoli dedfrydau yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2019. O fewn tri mis, roedd pandemig Covid-19 wedi effeithio ar y gwasanaeth. Mewn ymateb, mae'r gofrestr risg ranbarthol yn nodi'r prif risgiau, gan gynnwys adeiladau y 'Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol' ac amgylcheddau gwaith diogel o ran Covid-19 sy'n anfoddhaol. Yn PDU Gwent, mae hyn wedi'i ategu gan gofrestrau risg a phroblemau lleol, sy'n cofnodi risgiau lleol yn glir ac yn rhestru mesurau lliniaru a rheoli priodol. Ymysg y mesurau rheoli mae Bwrdd Ystad Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru ar lefel ranbarthol, a chyfarfodydd iechyd a diogelwch rheolaidd â chynulleidfaoedd mawr ar lefel leol. Ar ben hynny, ar lefel y PDU, mae adolygiadau asesu risg rheolaidd yn cael eu cynnal.

Mae traciwr statws y model cyflawni eithriadol yn dangos adolygiad rheolaidd o asesiadau risg cyffredinol er mwyn symud i fodel cyflawni eithriadol gwyrdd, a chaiff hyn ei gyfathrebu'n dda ar lefel leol drwy'r trosolwg 'Llwybr i Wyrdd' a ddarperir i dimau'r PDU.

Yn gyffredinol, mae dealltwriaeth dda o'r risgiau i ddarpariaeth gwasanaethau yn lleol ac mae mesurau lliniaru a rheoli priodol wedi cael eu rhoi ar waith i reoli'r gwaith o gyflawni'r model cyflawni eithriadol, a symud i ddull busnes fel arfer o ddarparu gwasanaethau. Mae trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn parhau i gael eu darparu drwy gydol pandemig Covid-19.

Roeddent wedi dechrau dychwelyd i ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb erbyn rhoi'r Safonau Cenedlaethol newydd ar waith ym mis Medi 2021. Fodd bynnag, yn ein hadolygiad o'r achosion ym mharth dau, mewn 43 y cant o achosion roedd lefel a natur y cyswllt a gynigiwyd yn annigonol i reoli a lleihau'r risg o niwed.

O ganlyniad i'r problemau staffio enbyd ar draws PDU Gwent ar hyn o bryd, mae'r Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol a'r Prif Swyddog Prawf wedi cytuno ar strategaeth rheoli'r galw. Mae hyn yn cynnwys rhewi secondiadau staff, rhewi'r holl hyfforddiant nad yw'n orfodol a gwirfoddol tan fis Chwefror 2022, atal unrhyw gyswllt pellach gorfodol i unrhyw un dan oruchwyliaeth ar ôl dedfryd (oni bai fod pryderon diogelu gweithredol), atal asesiadau terfynu'r System Asesu Troseddwyr, atal cyswllt wyneb yn wyneb ag achosion risg is, ac uwch swyddogion prawf a dirprwy bennaeth y PDU yn cyflawni swyddogaethau rheoli achosion lle bo angen. Dywedodd y PDU wrthym nad yw atal hyfforddiant nad yw'n orfodol yn atal dysgu cymar i gymar neu gymorth rheolwyr llinell ar gyfer datblygu proffesiynol. Yn ogystal â hynny, dywedwyd wrthym fod disgwyl o hyd i derfyniadau'r System Asesu Troseddwyr gael eu cwblhau os oes newid arwyddocaol i'r risg a bod disgwyl i staff esbonio unrhyw newidiadau eraill gan ddefnyddio nDelius yn absenoldeb y System Asesu Troseddwyr. Yn olaf, dywedodd fod y diffyg cyswllt mewn achosion goruchwyliaeth ar ôl dedfryd yn dibynnu ar y risg ac yn diwedd dim ond pan nad oes pryderon diogelu, ac ar gyfer achosion risg isel, mae angen esbonio unrhyw leihad mewn cyswllt ar nDelius o ran y rhesymeg a'r cynlluniau wrth gefn.

Er ei bod yn galonogol clywed bod strategaeth wedi'i rhoi ar waith, mae gennym bryderon ynglŷn â faint o ôl meddwl sydd ar y strategaeth hon. Dywedodd y PDU wrthym nad oedd y trefniadau rheoli'r galw lleol wedi cael eu dylunio mewn ymateb i'r arolwg hwn, a bod hyn yn adnodd cenedlaethol ar gyfer rheoli'r galw. O ganlyniad, nid yw'n ymddangos bod y camau gweithredu yn y strategaeth wedi cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â staff lleol, nac yn ystyried eu safbwyntiau. Er bod y PDU wedi dweud wrthym yr ymgysylltwyd â staff cyn llunio'r strategaeth rheoli'r galw, ar adeg yr arolwg ni welsom dystiolaeth o hyn, nac o effaith y camau gweithredu.
Roedd y staff yn parhau i deimlo nad yw'n bosib rheoli eu llwyth gwaith.

### A yw'r PDU yn sicrhau bod y model cyflawni'n diwallu anghenion pawb sydd ar brawf yn effeithiol?

Mae'r cynlluniau cyflawni yn PDU Gwent yn adlewyrchu'r model rhanbarthol. Mae'n rhan o nifer o fentrau Cymru gyfan, ond mae enghreifftiau da o fentrau lleol hefyd, gan gynnwys Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent, strategaeth VAWDASV a'r prosiect Pill lleol.

Mae'r ddarpariaeth gwasanaethau prawf yn PDU Gwent wedi'i rhannu'n naw tîm, gan gynnwys dau dîm arbenigol ar draws y PDU gyfan ar gyfer IOM a dedfrydau tymor byr, yn ogystal â rolau ymarferwyr prawf WISDOM arbenigol sydd wedi'u

hintegreiddio yn y timau rheoli dedfrydau cyffredinol. Er bod y timau arbenigol yn gysylltiedig â mentrau ehangach ar draws rhanbarth Cymru, maen nhw'n adlewyrchu anghenion lleol hefyd ac mae ganddynt gysylltiad da â rhanddeiliaid allweddol yn ardal PDU Gwent.
Mae arolygon a digwyddiadau ymgysylltu â staff wedi cael eu cynnal i wella dealltwriaeth staff o'r hyn maen nhw'n atebol am ei gyflawni. Fodd bynnag, mae effaith y digwyddiadau hyn yn amheus o ystyried cyfradd y newidiadau staffio, yn ogystal â'r llwythi gwaith uchel ar draws y PDU.

Yn ystod yr arolygiad, ni welsom unrhyw dystiolaeth fod y PDU yn ystyried safbwyntiau pobl ar brawf. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod hwn yn faes i'w ddatblygu a'i bod yn ddyddiau cynnar ar y cynlluniau ynghylch sut mae gwneud hynny'n arwyddocaol.

Mae'r adolygiad o'r achosion ym mharth dau yn dangos, ar draws tri o'r pedwar safon parth dau – asesu, gweithredu ac adolygu – y barnwyd bod llai na hanner yr achosion wedi canolbwyntio'n ddigonol ar ddiogelwch. Yn y safon parth dau arall – cynllunio – roedd y ffigur hwn ychydig dros hanner, ar 55 y cant.

| **1.2. Staff** | 🔴 |
|---|---|
| Galluogir staff i ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i bawb sydd ar brawf. | Annigonol |

Wrth lunio barn am staffio, rydym yn ystyried yr atebion i'r pedwar cwestiwn canlynol. Un o elfennau allweddol staffio yw a yw'r staff yn y PDU wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i bawb sydd ar brawf. Ar gyfer PDU Gwent, rydym wedi asesu nad yw hynny'n wir, sydd wedi arwain at sgôr 'Annigonol' ar gyfer staffio.

**A yw lefelau staffio a llwyth gwaith yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau o ansawdd uchel i bawb sydd ar brawf?**

Nid yw'n glir a yw lefelau staffio'r PDU yn ddigonol oherwydd nid yw'r model staffio targed yn hysbys ar hyn o bryd. Ar ôl newid y drefn rheoli dedfrydau ym mis Rhagfyr 2019, ni chynhaliwyd adolygiad cenedlaethol o staffio. Felly, mae'r lefelau staffio presennol yn seiliedig ar "godi a symud" o strwythurau blaenorol, ac nid oes adolygiad na gwerthusiad ffurfiol wedi'i gynnal. Nid yw'r model staffio targed wedi cael ei adolygu'n ffurfiol o hyd, er bod ymyriadau a rhaglenni wedi cael eu pontio i'r model gweithredu newydd. Yn ôl y gwaith Cynllunio'r Gweithlu Cenedlaethol, disgwylir y bydd hyn wedi'i ddatrys erbyn mis Mawrth 2022, ond mae ymdrechion niferus wedi'u gwneud yn rhanbarthol i ddatrys y broblem hon yn gynt. Er bod lefelau staffio PDU yn cael eu cynllunio a'u hadolygu, a bod newidiadau'n cael eu gwneud i ateb y galw, er enghraifft drwy gynnig goramser i staff a'r model rheoli'r galw y cytunwyd arno o'r newydd, mae'n glir bod problem staffio enbyd ar draws PDU Gwent.

Yn yr arolwg staff, roedd pum y cant o'r ymatebwyr yn teimlo "nad yw lefelau staffio yn llwyr ddigonol" ac roedd 95 y cant yn teimlo "nad ydynt yn ddigonol o gwbl". O ganlyniad, dywedodd 50 y cant o'r ymatebwyr "nad yw eu llwyth gwaith yn hawdd iawn ei reoli", roedd 30 y cant yn teimlo "nad yw'n bosib ei reoli o gwbl" a dim ond

20 y cant a ddywedodd ei fod yn "eithaf hawdd ei reoli". Cafodd hyn ei adleisio yn ein cyfweliadau ag ymarferwyr, lle dywedodd 67 y cant "nad yw eu llwyth gwaith yn hawdd iawn ei reoli" neu "nad yw'n bosib ei reoli o gwbl".

Yn ôl data a ddarparwyd gan y PDU, llwyth achosion cyfartalog swyddog prawf yw 31, a 42 i swyddog gwasanaethau prawf. Mae'r un data yn dangos bod gan 47 y cant o swyddogion prawf a 28 y cant o swyddogion gwasanaethau prawf lwyth achosion sy'n fwy na tharged yr adnodd mesur llwyth gwaith lleol. Er nad yw'r ffigurau hynny'n ymddangos yn uchel eithriadol, nid ydynt yn cynnwys salwch staff na staff yn gadael, sy'n cael effaith sylweddol oherwydd bod angen ailddyrannu achosion yn aml. Yn ogystal â hynny, nid yw'r adnodd mesur llwyth gwaith yn gallu ystyried cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â phandemig Covid-19, fel gorfod gweithio gartref neu gael amser cyfyngedig i ddefnyddio ystafelloedd cyfweld o ganlyniad i'r cyfyngiadau cylchrediad aer sydd ar waith. Er ei gyfyngiadau, yr adnodd mesur llwyth gwaith yw'r prif fesur ar gyfer llwythi gwaith staff. Dyna pam nad oedd y staff y siaradon ni â nhw ar draws yr holl raddfeydd yn credu ei bod yn bosib rheoli llwythi gwaith.

Ar adeg yr arolygiad, roedd hi'n galonogol clywed bod 11 o swyddogion gwasanaethau prawf newydd yn ymuno â PDU Gwent, yn ogystal ag wyth dysgwr PQiP, dau uwch swyddog prawf ac un ymarferydd prawf cymwysedig. Fodd bynnag, o blith y 12 o swyddogion gwasanaethau prawf a gafodd eu recriwtio yn ystod haf y llynedd, dim ond pump sy'n weddill. Cafodd y lefel hon o staff yn gadael ei phriodoli i'r ffaith fod staff yn gadael y Gwasanaeth Prawf i ymgymryd â rolau yn yr heddlu ac ym myd addysg. Ond clywsom am gyfnod fetio o 14 i 16 wythnos hefyd, sy'n sicr yn cael effaith ar allu'r PDU i gadw staff y mae cynigion cyflogaeth wedi'u gwneud iddynt. Yn bryderus, roedd y cyfnod hwn yn berthnasol i staff newydd sy'n ymuno â'r sefydliad ac i staff sydd yn y sefydliad yn barod a oedd yn newid rolau. Rydym yn derbyn bod y broblem hon y tu hwnt i reolaeth PDU Gwent ac nad yw'n gyfyngedig i'r ardal hon. Felly, mae'r Arolygiaeth yn teimlo bod angen mynd i'r afael â'r broblem hon ar frys gan fod y sefyllfa bresennol yn anghynaladwy, ac y bydd yn parhau i gael effaith niweidiol ar draws y Gwasanaeth Prawf cyfan.

Dywedwyd bod llwyth gwaith staff gweinyddol yn "enfawr" a bod prinder ymarferwyr prawf, a phenderfyniad i rewi prosesau recriwtio gradd un sy'n golygu na ellir recriwtio staff derbynfa, wedi effeithio arnynt. Effaith gronnol y pwysau hyn yw bod llwyth gwaith staff gweinyddol yn amlwg yn eu llethu ac yn ein grwpiau ffocws, dywedon eu bod yn cael trafferth â'u gofynion amser sy'n cystadlu â'i gilydd.

Yn yr un modd, roedd rheolwyr canol yn adrodd "cylch diddiwedd o anawsterau" wrth reoli salwch staff, defnyddio'r Un Llwyfan Gweithredu, gwneud atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol, symud achosion yn barhaus, cymeradwyo adroddiadau PAROM, cadeirio trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA), sesiynau goruchwylio sgiliau ar gyfer ymgysylltu a datblygu effeithiol, ac adlofnodi ar y System Asesu Troseddwyr – roedd disgwyl rhoi blaenoriaeth i bob un o'r rhain. Clywsom fod llwythi gwaith wedi bod yn hynod anodd dros y ddau fis blaenorol oherwydd y gyfradd gadael ar lefel swyddog gwasanaethau prawf a'r anawsterau parhaus sy'n gysylltiedig â Covid-19, a lefelau salwch staff.

Roedd y dewisiadau llwyth gwaith eraill a enwyd uchod, y cytunwyd arnynt fel rhan o'r trefniadau rheoli'r galw, yn arwydd cynnar bod y PDU yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau llwyth gwaith. Fel y dywedwyd eisoes, mae'n dal yn aneglur a fydd y camau'n cael effaith gadarnhaol ar lwyth gwaith staff.

## A yw sgiliau a phroffil staff yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau o ansawdd uchel i bawb sydd ar brawf?

Nid yw gweithlu PDU Gwent yn adlewyrchu'r boblogaeth leol. Mae nifer anghymesur o'r gweithlu (89.3 y cant) yn ferched ac mae llai na phump y cant o gefndir du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol, o'i gymharu â'r boblogaeth heb fod yn wyn yng Ngwent, sy'n 5.3 y cant yn ôl yr amcangyfrifon. Yn PDU Gwent, mae cyfran y bobl ar brawf sy'n ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol yn 23.8 y cant.

Mae ymgais realistig wedi'i gwneud i gynnal hyfforddiant staff yn ystod pandemig Covid-19 gan ddefnyddio llwyfannau ar-lein. Mae llawer o staff yn credu bod ganddynt y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i reoli'r achosion maen nhw'n gyfrifol amdanynt, ond roedd rhai staff wedi dweud bod dysgu ar-lein yn "ymarfer ticio'r blwch" yr oeddent wedi'i gwblhau'n gyflym i allu cofnodi eu bod wedi'i gyflawni, heb fynd i'r afael â'r dysgu o gwbl mewn gwirionedd.

O blith y naw tîm ar draws PDU Gwent, mae dau dîm arbenigol ar gyfer IOM a'r tîm dedfrydau tymor byr. Clywsom fod llwyth gwaith rhai swyddogion WISDOM yn cael ei leihau yn ôl yr angen, ond nad oedd hynny'n wir i bawb. Roedd hi'n ymddangos bod hwn yn fater daearyddol a'i fod yn amrywio rhwng swyddfeydd.

Mae saith PQiP yn y PDU ar hyn o bryd. Daeth nifer ohonynt o rolau swyddog gwasanaethau prawf a oedd yn bodoli eisoes. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar eu profiad o hyfforddiant, dyrannu achosion a lefelau goruchwyliaeth. Adroddodd rhai eu bod yn cael eu defnyddio fel adnodd swyddogion gwasanaethau prawf yn lle cael y cyfle dysgu PQiP, oherwydd "mae'n rhaid i'r achosion hyn fynd i rywle".

Nid yw'r strategaethau rhanbarthol ar gyfer amrywiaeth a chydraddoldeb y gweithlu yn sicrhau'n ddigonol bod anghenion amrywiol y llwyth achosion yn cael eu diwallu'n llawn, ac mae'r trefniadau lleol yn ddiffygiol mewn rhai meysydd. Er enghraifft, ni welsom unrhyw dystiolaeth o ddarparu ymyriadau sydd wedi'u hanelu at weithio gyda'r rhai sydd wedi'u cael yn euog o droseddau gwaethygedig ar sail hil. Er bod y PDU wedi dweud wrthym fod ganddi ymyriad o'r enw "ERASE", ni welsom unrhyw dystiolaeth ohono yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom dystiolaeth o ymarferwyr yn gorddibynnu ar CORRE ac o adegau lle roedd cryn dipyn o amser yn mynd heibio rhwng atgyfeiriad a dechrau unrhyw ymyriad. Hefyd, mae'n ymddangos bod sesiynau â phobl ar brawf yn fwy o sesiynau "cadw cysylltiad" na bod unrhyw strwythur neu bwrpas ystyrlon iddynt. Mewn 43 y cant o'n hadolygiadau o achosion ar gyfer parth dau, nid oedd lefel na natur y cyswllt a gynigiwyd yn ddigonol i reoli a lleihau'r risg o niwed i bobl eraill.

O'r blaen, roedd gwirfoddolwyr wedi cael eu defnyddio drwy Gylchoedd Cymorth ac Atebolrwydd, ond roedd prosesau recriwtio gwirfoddolwyr wedi cael eu hoedi o ganlyniad i bandemig Covid-19.

## A yw goruchwylio gwaith yn cefnogi darpariaeth a datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel?

Roedd hi'n gadarnhaol gweld bod diwylliant o ddysgu a gwella parhaus yn cael ei hybu'n rhanbarthol drwy'r Strategaeth Ymarfer Effeithiol. Mae hyn yn cynnwys hwyluso digwyddiadau dysgu gan gymheiriaid a digwyddiadau dysgu ar raddfa fawr i staff, Dysgu Cymru, yn ogystal â digwyddiadau hyfforddi ar y cyd, wedi'u hwyluso gyda phartneriaid allweddol. Yn ein harolwg staff, roedd 55 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod diwylliant o ddysgu a datblygu parhaus yn cael ei hybu "bob amser" neu'r "rhan fwyaf o'r amser".

Dywedodd rheolwyr y PDU wrthym eu bod yn disgwyl i staff gael eu goruchwylio'n rheolaidd, gan gynnwys arsylwi ar ymarfer a thrafodaethau am oruchwyliaeth o ymarfer, a hynny'n unol â'r model gweithredu targed. Mae hyn yn helpu staff i bwyso a mesur eu gwaith er mwyn ysgogi eu datblygiad a'u dysgu eu hunain. Mae'n bosib mai'r pwysau ar yr adnodd uwch swyddogion prawf yw'r rheswm bod llawer o staff wedi dweud nad ydynt bob amser yn cael goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar achosion nac arsylwadau ar ymarfer yn rheolaidd. Yn ein harolwg staff, dywedodd 40 y cant o'r ymatebwyr nad ydynt yn cael eu goruchwylio'n ddigon aml. Yn ein cyfweliadau â staff, roedd darlun cymysg o ran goruchwyliaeth strwythuredig a goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar achosion. Dywedodd rhywfaint o'r staff fod cryn amser rhwng sesiynau goruchwylio ffurfiol. Fodd bynnag, roedd llawer o'r staff yn canmol eu rheolwyr llinell ac yn disgrifio sefyllfaoedd lle roeddent yn gallu mynd i siarad â nhw ar unrhyw adeg, ac mai polisi "drws agored" oedd y drefn arferol o ran cael trafodaethau mwy anffurfiol am achosion.

Mae polisïau datblygu ac arfarnu staff ar waith ar lefel ranbarthol, ac mae rhai cyfleoedd datblygu'n bodoli, er enghraifft drwy rolau asesydd tiwtor ymarfer. Hefyd, gwelsom ymarfer calonogol lle roedd cymorth ychwanegol yn cael ei roi i aelod o staff y PDU a oedd yn gwneud cais am ddyrchafiad. Cafodd hi gyfleoedd i gysgodi a hyfforddiant ar gyfer sgiliau cyfweliad; llwyddodd i gael ei dyrchafu.

Roedd staff yn canmol y Llwybr Anhwylder Personoliaeth Troseddwyr a'r oruchwyliaeth ychwanegol yr oedd y ddarpariaeth hon yn ei rhoi iddynt o ran rheoli achosion.

Mae hyfforddiant mewn swydd nad yw'n orfodol wedi cael ei atal ar hyn o bryd oherwydd bod y trefniadau rheoli'r galw yn cael eu rhoi ar waith. Ond cyn i hynny ddigwydd roedd tystiolaeth dda o gynnal hyfforddiant.

Nid yw'r strategaeth i sicrhau bod gan yr holl staff fynediad cyfartal at gyfleoedd dyrchafiad wedi cael ei rhoi ar waith yn llawn eto. Mae strategaeth talent a gallu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhwymo gwasanaethau i ddatblygu arweinyddiaeth a galluoedd. Mae'r fframwaith seiliedig ar gymwyseddau yn cael ei gyflwyno helpu staff i godi eu band cyflog bob blwyddyn. Fframwaith cenedlaethol sy'n cefnogi gweithgareddau rheoli ansawdd rhanbarthol yw'r fframwaith rheoli ansawdd craidd. Mae cyfarfod rheoli talent Cymru'n cyflwyno darlun cadarnhaol o'r grŵp rheolwyr canol, lle mae "llawer o staff" yn y grwpiau talent uwch.

Yn ein hadolygiad o achosion ar gyfer parth dau, barnwyd bod goruchwyliaeth rheolwyr yn aneffeithiol mewn 67 y cant o achosion.

### A yw rheolwyr yn rhoi digon o sylw i ymgysylltu â staff?

O blith y naw tîm ar draws PDU Gwent, mae dau ohonynt yn dimau arbenigol ar gyfer IOM a'r tîm dedfrydau tymor byr. Mae hyfforddiant penodol ar gael i staff sy'n gweithio mewn timau arbenigol, gan gynnwys mabwysiadu dull seiliedig ar drawma a gwaith ymgysylltu amlasiantaeth gyda'r heddlu a chyd-weithwyr yn y carchar. Yn ein harolwg staff, dywedodd 60 y cant o'r ymatebwyr fod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad priodol i reoli'r achosion sy'n cael eu dyrannu iddynt "bob amser" neu'r "rhan fwyaf o'r amser", ac yn ein cyfweliadau ag ymarferwyr dywedodd 58 y cant fod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i oruchwylio'r achos a oedd yn cael ei adolygu "bob amser". Dywedodd 38 y cant fod hynny'n wir "y rhan fwyaf o'r amser" a phedwar y cant fod hynny'n wir "yn anaml".

Mae pennaeth y PDU yn eiriolwr cryf dros les staff ac mae'n glir bod cyfleoedd ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol i'r holl staff. Mae'r ymrwymiad i wella ymgysylltiad a

lles staff i'w weld mewn mentrau fel yr ystafell lles staff, diwrnodau i ffwrdd i staff lle mai'r staff sy'n penderfynu ar yr agenda, a thudalen Instagram PDU Gwent sy'n canolbwyntio ar les. Fodd bynnag, roedd 75 y cant o'r ymatebwyr i'n harolwg staff yn teimlo nad oedd digon o sylw'n cael ei roi i'w lles. Yn ein cyfweliadau â staff, roedd cydnabyddiaeth o'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud mewn cysylltiad â lles staff, ond roedd eu llwythi gwaith yn golygu nad oeddent yn gallu teimlo effaith yr ymdrechion hyn.

O blith yr ymatebwyr i'n harolwg staff y mae angen addasiadau rhesymol arnynt, dywedodd 30 y cant nad oeddent wedi cael eu gwneud iddynt. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae dyletswydd ar y Gwasanaeth Prawf i wneud 'addasiadau rhesymol' i drefniadau yn y gweithle i staff anabl. Cafodd gwasanaeth addasiadau yn y gweithle newydd ei lansio ym mis Ebrill 2021, a oedd yn cynnwys adran Covid-19 benodol i roi cymorth i'r rhai sy'n gweithio gartref. Caiff y gwasanaeth hwn ei ddisgrifio fel "proses syml wedi'i dylunio i ganiatáu i benderfyniadau gael eu gwneud cyn gynted â phosib", sy'n gwneud ein canfyddiadau'n fwy pryderus byth.

## 1.3. Gwasanaethau

| | |
|---|---|
| Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael, sy'n cefnogi gwasanaeth ymatebol, wedi'i deilwra ar gyfer pawb sydd ar brawf. | Annigonol |

Wrth lunio barn am wasanaethau, rydym yn ystyried yr atebion i'r tri chwestiwn canlynol yn ogystal â'r sgôr a roddwyd i weithredu a darparu yn yr adolygiadau o achosion parth dau. Rhoddwyd y sgôr 'Annigonol' i wasanaethau oherwydd nad yw ystod ac ansawdd y gwasanaethau yn cefnogi gwasanaeth ymatebol, wedi'i deilwra ar gyfer pawb sydd ar brawf. 'Annigonol' oedd y sgôr a roddwyd i'r rhan fwyaf o'n sgoriau yn ein hadolygiadau o achosion parth dau hefyd.

**A yw'r nifer, yr ystod a'r ansawdd cywir o wasanaethau yn eu lle i ddiwallu anghenion pobl sydd ar brawf?**

| **Nodweddion achosion a arolygwyd**[2] | |
|---|---|
| Cyfran y baich achosion sy'n fenywod | 15% |
| Cyfran yr achosion a arolygwyd sy'n ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol | 2% |
| Cyfran yr achosion a arolygwyd sydd ag anabledd | 55% |
| Cyfran yr achosion a arolygwyd lle nododd arolygwyr broblemau camddefnyddio alcohol | 32% |

[2] Data arolygu Arolygiaeth Prawf EM.

| | |
|---|---|
| Cyfran yr achosion a arolygwyd lle nododd arolygwyr broblemau camddefnyddio cyffuriau | 52% |
| Nifer y gofynion rhaglenni achrededig nad ydynt wedi dechrau ar gyfer unigolion a gafwyd yn euog o drosedd rywiol[3] | 46 |
| Nifer y gofynion rhaglenni achrededig nad ydynt wedi dechrau, ac eithrio ar gyfer unigolion a gafwyd yn euog o drosedd rywiol | 153 |
| Amser aros ar gyfartaledd cyn dechrau Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu | 6.1 wythnos |
| Cyfran y gofynion gwaith di-dâl gydag oriau yn weddill y tu hwnt i 12 mis | 23% |

Mae ôl-groniadau sylweddol o ran darparu rhaglenni achrededig ac mae darparu gwaith di-dâl yn dal yn her, un sydd wedi'i chymhlethu o ganlyniad i natur wledig rhai rhannau o ardal PDU Gwent. Clywsom fod cynyddu nifer y bobl ar brawf a ganiateir ar gludiant o un person i dri yn helpu, ond ar adeg yr arolygiad roedd 617 o achosion â gofyniad gwaith di-dâl ac roedd gan 23 y cant o'r rheini oriau yn weddill y tu hwnt i 12 mis.

Mae ôl-groniadau sylweddol o ran darparu rhaglenni achrededig ac er nad yw hon yn broblem sy'n benodol i Gwent, os na ellir darparu rhaglenni achrededig oherwydd nad yw unigolion yn bodloni meini prawf blaenoriaethu Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, mae'r gwaith yn cael ei ddychwelyd i'r ymarferydd prawf. Clywsom fod rhai ymarferwyr prawf yn teimlo nad ydynt wedi'u harfogi'n ddigon da i gyflawni'r gwaith hwn, a chafodd ei nodi fel angen dysgu. Roedd eraill yn adrodd nad oedd digon o amser i gyflawni unrhyw waith un-i-un ystyrlon. Yn y ddau achos, ni welsom unrhyw dystiolaeth o reolwyr yn goruchwylio darpariaeth gyson, na threfn sicrhau ansawdd ffurfiol.

Mae'r PDU yn darparu mynediad at amrywiaeth o wasanaethau ar sail proffil nifer o'r bobl ar brawf ac mae'r rhain wedi'u hamlinellu'n glir mewn cyfeiriadur lleol, cynhwysfawr o wasanaethau. Fodd bynnag, yn ein harolwg staff, dim ond 50 y cant o'r ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt fynediad at ystod briodol o wasanaethau i ddiwallu anghenion a risgiau pobl ar brawf y rhan fwyaf o'r amser. Ar ben hynny, mewn 62 y cant o'r achosion a adolygwyd ar gyfer parth dau, nid oedd y gwaith o weithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y person ar brawf.

Mae rhywfaint o ffocws ar adeiladu cryfderau a chynyddu ffactorau amddiffynnol drwy fynd i'r afael â nodweddion troseddegol fel camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, lles personol gwael a llety annigonol.

Mae'r gwasanaethau a chymorth ar gyfer nodweddion gwarchodedig yn gyfyngedig, ac nid yw'r holl ffactorau amrywiaeth neu faterion anghymesuredd yn cael eu nodi nac yn cael sylw digonol. Er ein bod wedi gweld tystiolaeth o ymyriad unigryw ac arbenigol i weithwyr rhyw, mae'r ffocws ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol

[3] Data a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Prawf.

yn llai eglur. Ni welsom dystiolaeth o unrhyw wasanaethau arbenigol ychwanegol ar gael i bobl ar brawf.

Mae Gwent yn cyfrif am 19 y cant o'r boblogaeth troseddwyr yng Nghymru. Ymhlith llwyth achosion PDU Gwent, mae 31 y cant ar gyfer trais (sy'n is na chyfartaledd Cymru) ac mae saith y cant ar gyfer troseddau rhywiol yn erbyn plentyn (sy'n uwch na chyfartaledd Cymru). Ymhlith y bobl ar brawf yng Ngwent, mae gan 51 y cant anabledd wedi'i ddatgan (sy'n uwch na chyfartaledd Cymru) ac mae 7.5 y cant yn ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol (sy'n uwch na chyfartaledd Cymru).

Yn ein cyfweliadau rheoli achosion â staff, roedd 60 y cant yn teimlo bod ganddynt fynediad at ystod briodol o wasanaethau naill ai'n fewnol neu drwy asiantaethau eraill "y rhan fwyaf o'r amser". Roedd 28 y cant yn teimlo bod hynny'n wir "bob amser" ac 13 y cant yn teimlo bod hynny'n wir "yn anaml".

### A yw cysylltiadau â darparwyr ac asiantaethau eraill yn cael eu sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl ar brawf?

Roedd cysylltiadau â'r heddlu a'r gwasanaethau diogelu (plant ac oedolion) yn gadarn ar lefel strategol, ond mae'n glir o'r adolygiad o achosion nad oedd hyn yn dod i'r amlwg yn gyson yn ymarferol. Roedd hyn yn glir yn ein cyfweliadau ag ymarferwyr hefyd. Dywedodd rhai ohonynt wrthym nad oedd unrhyw ganolfan diogelu amlasiantaeth, er bod dau drefniant ar gyfer dwyrain a gorllewin Gwent mewn gwirionedd.

Mae nifer dda o wasanaethau ar draws y PDU. Darperir y rhan fwyaf ohonynt gan asiantaethau partner ac maen nhw wedi'u cofnodi'n dda mewn cyfeiriadur eang o wasanaethau. Mae gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu o dan y fframwaith Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu, sydd newydd ei sefydlu, yn datblygu'n dda ond mae'n dal yn ddyddiau cynnar ar eu datblygiad, ac mae'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â phandemig Covid-19 yn eu rhwystro.

Yn yr un modd, dim ond yn ddiweddar mae CORRE wedi cael ei gyflwyno ac er bod dealltwriaeth dda o'r fenter hon ymysg staff, mae pryderon hefyd ei bod wedi creu diffyg perchnogaeth dros ddarparu gwasanaethau. Mae'r cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau drwy Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent yn ardderchog ac mae darpariaeth arbenigol i weithwyr rhyw. Fodd bynnag, mae gwasanaethau arbenigol eraill yn ddiffygiol ac ychydig o dystiolaeth a welsom o wasanaethau arbenigol eraill ar gael.

Mae'n ymddangos bod ymarferwyr prawf yn gorddibynnu ar CORRE, lle mae cryn dipyn o amser yn mynd heibio rhwng atgyfeirio a dechrau ymyriad. Hefyd, cafodd sesiynau â phobl ar brawf eu disgrifio fel sesiynau "cadw cysylltiad" yn hytrach na bod unrhyw strwythur neu bwrpas ystyrlon iddynt. Mewn 40 y cant o'r achosion a adolygwyd ar gyfer parth dau, nid oedd cyfranogiad sefydliadau eraill yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau wedi'i gyd-drefnu'n ddigon da.

Yn ein cyfweliadau â staff, dywedodd rhai wrthym nad oeddent yn teimlo'n hyderus yn darparu ymyriadau ar sail un-i-un mewn achosion goruchwylio, a'i nodi fel angen dysgu. Mae hyn yn bryder penodol o ystyried data parth dau mewn cysylltiad â gweithredu a darparu, ond hefyd y ffaith fod hyfforddiant nad yw'n orfodol wedi cael ei atal i'r holl staff tan fis Chwefror 2022 o dan y model rheoli'r galw newydd sydd wedi cael ei roi ar waith yn ddiweddar.

Mae'n amlwg bod cyswllt clir â'r llysoedd drwy'r cyfarfodydd cyswllt dedfrydwyr a'r cylchlythyrau dedfrydwyr. Yn ein harolwg, dywedodd 100 y cant o ddedfrydwyr fod

sgiliau staff llysoedd yn cefnogi darpariaeth o safon uchel. Fodd bynnag, yn ein cyfweliadau â dedfrydwyr, clywsom fod angen gwybodaeth fwy perthnasol, er enghraifft am effeithiolrwydd gwaith di-dâl.

**Ailsefydlu**

Ers mis Mehefin 2021, mae staff sy'n darparu cymorth ailsefydlu i bobl sy'n gadael y carchar wedi bod yn rhan o'r tîm dedfrydau tymor byr. Mae rhanbarth Cymru a PDU Gwent ymysg y cyntaf i fabwysiadu'r model ailsefydlu hwn. Mae'r model rheoli troseddwyr yn y carchar (OMiC), sydd wedi'i ddylunio ar gyfer dynion sy'n bwrw dedfrydau tymor hirach, yn dal yn achosi problemau a'r canfyddiad gan staff yw bod perthynas gymhleth rhwng y modelau ailsefydlu ac OMiC, a dywedon fod ganddynt ychydig neu ddim amser o gwbl i'w ddeall. O ganlyniad, mae'r rhai â dedfrydau hirach yn llai tebygol o gael y gwasanaeth dylent ei ddisgwyl gan y model OMiC.

O ystyried graddfa a chyfradd y newid yn y maes hwn, nid yw'n syndod bod ailsefydlu'n elfen o ddarpariaeth gwasanaethau y mae angen ei gwella. Dim ond mewn 45 y cant o'r achosion a aseswyd gennym y barnwyd bod yr ymarferydd prawf cymunedol wedi sicrhau lefel gymesur o gyswllt gyda'r carcharor cyn ei ryddhau ac mewn 59 y cant o'r achosion, roedd yr ymarferydd prawf cymunedol wedi mynd i'r afael â'r anghenion risg o niwed allweddol cyn rhyddhau. Ond, yn fwy calonogol, aseswyd bod yr ymarferydd prawf cymunedol wedi mynd i'r afael â'r prif anghenion ailsefydlu neu ymatal cyn rhyddhau mewn 64 y cant o achosion. Roeddem yn falch o weld hynny. Yr achosion a gafodd sgoriau da yn y maes hwn oedd y rhai yr oedd asiantaethau y tu allan i'r Gwasanaeth Prawf wedi cymryd rhan ynddynt.

O ystyried heriau uno a phandemig Covid-19 i ailsefydlu ac i ddarpariaeth gwasanaethau yn ehangach, efallai nad yw'n syndod bod angen gwella. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, wrth ystyried y cwestiynau allweddol mewn llawer o'n hadolygiadau o achosion, roeddem wedi canfod bod achosion sy'n destun trwydded ôl-ryddhau yn sgorio'n well ar y cyfan ac yn fwy tebygol o gael asesiad eu bod wedi bodloni'r meini prawf penodedig na'r rhai sy'n destun gorchymyn cymunedol. Roedd yr un achos IOM yn ein sampl yn destun trwydded ôl-ryddhau ac roeddem yn falch o weld, yn y sampl ehangach o achosion, fod gwaith ailsefydlu'n cael sgoriau gwell mewn achosion risg uwch yn gyson. Nid oedd hyn yn wir mewn meysydd gwaith eraill a aseswyd gennym, ac felly mae'n haeddu cydnabyddiaeth.

## 1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau

| | |
|---|---|
| Mae gwybodaeth brydlon a pherthnasol ar gael, a chyfleusterau priodol yn eu lle i gefnogi dull gweithredu ymatebol, personol o ansawdd uchel ar gyfer pawb sydd ar brawf. | Angen gwella |

Wrth lunio barn am wybodaeth a chyfleusterau, rydym yn ystyried yr atebion i'r pedwar cwestiwn canlynol. Rydym wedi asesu nad yw'r wybodaeth a'r cyfleusterau'n cefnogi dull gweithredu ymatebol, personol o ansawdd uchel i bawb sydd ar brawf yn ddigonol, ac felly wedi rhoi sgôr 'Angen gwella' i hyn.

**A yw'r dadansoddi, y dystiolaeth a'r dysgu'n cael eu defnyddio'n effeithiol i sbarduno gwelliant?**

Mae strategaeth perfformiad ac ansawdd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn amlinellu'r strwythur rhanbarthol yn Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf ledled Cymru. Mae adroddiad perfformiad Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf (PDU), Gwent yn canolbwyntio'n gryf ar dargedau a data cyflawni, sy'n drawiadol mewn nifer o feysydd. Fodd bynnag, mae prinder nodedig o wybodaeth am ansawdd neu effeithiolrwydd darpariaeth gwasanaethau.

Mae'r grŵp dysgu ymarfer gorau yn fenter sydd wedi hen ennill ei phlwyf yn PDU Gwent ac mae'n cael ei hategu gan borth ymarfer ar Microsoft Teams. Caiff gweithdai ar ddarnau penodol o waith eu cynnal gan ymarferwyr prawf ac er bod y rhain wedi'u hanelu at ddysgwyr PQiP, maen nhw ar gael i'r holl staff prawf. Mae'n ymddangos bod dealltwriaeth dda o ddysgu a geir drwy droseddau difrifol pellach, adolygiadau o achosion difrifol neu adolygiadau o laddiadau domestig, a chlywsom enghreifftiau o hyfforddiant amlasiantaeth yn cael ei ddarparu i staff ac i bartneriaid mewn ymateb i'r digwyddiadau hyn.

Mae dysgu'n cael ei gyfathrebu mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys y grŵp dysgu ymarfer gorau, porth ymarfer effeithiol Cymru, a digwyddiadau hyfforddiant ar y cyd â phartneriaid. Fodd bynnag, nid yw canlyniadau'r achosion a aseswyd ar gyfer parth dau yn dangos bod dysgu effeithiol yn cael ei wreiddio a'i drosi'n ymarfer ar y rheng flaen.

Mae safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol fel yr heddlu a'r llysoedd yn cael eu ceisio i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu gwasanaethau, ond nid yw safbwyntiau pobl ar brawf yn cael eu ceisio'n ddigonol ar lefel y PDU ac ni welsom dystiolaeth o gynlluniau gwella gwasanaethau.

### A yw'r polisïau a'r canllawiau sydd ar waith yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gan ddiwallu anghenion pawb sydd ar brawf?

Mae gwybodaeth am amrywiaeth yn cael ei chasglu ar lefel ranbarthol yn hytrach na lefel y PDU, ond mae gwybodaeth gynhwysfawr am amrywiaeth yng nghyswllt pobl ar brawf yn adroddiadau perfformiad y PDU.

Perchnogir polisïau a chanllawiau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol yn bennaf, ond maen nhw'n cael eu cyfathrebu i'r holl staff drwy EQuiP.[4]

Mae cyfeiriadur gwasanaethau PDU Gwent a dogfennau am ddim y Gwasanaeth Ailsefydlu'n cynnwys manylion polisïau a chanllawiau lleol ynghylch yr ystod lawn o wasanaethau wedi'u comisiynu'n lleol, pa mor addas ydynt i unigolion sydd ar brawf, a'r prosesau atgyfeirio. Mae'r holl staff ar draws y PDU yn cael eu briffio'n rheolaidd ond hefyd, clywsom gan staff eu bod yn teimlo eu bod yn gallu mynd i siarad â'u rheolwyr llinell a'r uwch reolwyr am unrhyw broblemau neu bryderon sydd ganddynt.

Clywsom adborth cadarnhaol am y dull cyfunol o weithio ac mae Microsoft Teams wedi helpu i wella presenoldeb mewn cyfarfodydd, a gwneud yr holl ddigwyddiadau staff yn haws eu mynychu. O'r blaen, byddai digwyddiadau o'r fath wedi golygu cryn dipyn o deithio i lawer o ganlyniad i natur wledig PDU Gwent.

---

[4] Mae Rhagoriaeth ac Ansawdd Prosesau (**E**xcellence and **Qu**ality **i**n **P**rocesses) yn system a ddarperir gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM ac a ddisgrifir fel 'ffordd o weithio sy'n cefnogi gwaith rheoli prosesau i "gyflenwi" staff â'r canllawiau a'r ffurflenni sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu swydd.'

### A yw'r adeiladau a'r swyddfeydd yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd, gan ddiwallu anghenion pawb sydd ar brawf?

Mae tystiolaeth glir o ddull strategol, cryf o sicrhau bod swyddfeydd yn ddiogel ac o ymgais glir i gynyddu ymgysylltiad staff a phobl sydd ar brawf mewn swyddfeydd, a hynny drwy fentrau fel yr ystafelloedd lles.

Mae'r adeiladau yn PDU Gwent yn hygyrch i'r holl staff a phawb sydd ar brawf. Nid oes pryderon mewn cysylltiad â'r swyddfeydd ond mae'r PDU yn cytuno bod swyddfeydd Casnewydd a Chaerffili yn well o lawer na rhai Glynebwy a Dwyrain Gwent, a fydd dan sylw ill dau fel rhan o'r strategaeth ystadau ehangach flwyddyn nesaf.

Er bod swyddfeydd Glynebwy a Dwyrain Gwent yn hen ac yn creu heriau o ran lle a'r gallu i'w haddasu, maen nhw'n diogel ac yn creu gwasgariad daearyddol da ar draws y PDU.

Mae ystafell lles staff yn ei lle yn swyddfa Casnewydd ac mae cynlluniau i greu ystafell gyfweld feddal yno. Mae hyn wedi cael croeso da ymysg staff.

Yn ein harolwg staff, dywedodd 70 y cant o'r ymatebwyr bod yr adeiladau a'r swyddfeydd yn cefnogi cyflawni gwaith priodol ac ymgysylltu'n effeithiol â phobl sydd ar brawf "i ryw raddau", neu "i raddau helaeth".

### A yw'r systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gan ddiwallu anghenion pawb sydd ar brawf?

Mae gan ymarferwyr prawf a swyddogion gwasanaethau prawf liniaduron a ffonau symudol, ac maen nhw'n gallu cysylltu eu gliniaduron o bell i gael gafael ar gronfeydd data ar y rhyngrwyd. Mae'r cronfeydd data hyn yn gallu cynhyrchu gwybodaeth reoli briodol hefyd, sy'n gallu cael ei dadansoddi i roi gwybod i arweinwyr y PDU am berfformiad timau ac unigolion.

Hefyd mae data perfformiad yn cael eu casglu ar draws y rhanbarth a'u cyflwyno gan PDUs unigol ar ffurf yr Adroddiad Perfformiad PDU, sy'n cael ei ddosbarthu'n fisol. Pwrpas hyn yw olrhain perfformiad yn erbyn targedau a gwneir cymariaethau rhwng y PDUs yn y rhanbarth ehangach.

Mae data gwybodaeth reoli yn cynnwys rhywfaint o ddata ar nodweddion gwarchodedig ond mae hyn wedi'i gyfyngu i ferched a'r rhai o gefndir du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol.

Yn ein harolwg staff, dywedodd 65 y cant o'r ymatebwyr fod systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn ei gwneud hi'n bosib cyflawni gwaith yn brydlon "y rhan fwyaf o'r amser" neu "bob amser". Ni welsom unrhyw dystiolaeth o staff yn cael trafferth cael gafael ar TG yn ystod ein harolygiad o bell a chlywsom rhywfaint o adborth cadarnhaol am weithio cyfunol, fel y ffaith fod defnyddio Microsoft Teams wedi cynyddu'r presenoldeb mewn cyfarfodydd MAPPA.

### Adborth gan bobl ar brawf

Nid yw safbwyntiau pobl ar brawf yn cael eu ceisio'n ddigonol ar lefel y PDU a chafodd hwn ei gydnabod fel maes i'w wella. Er ein bod wedi gweld cynlluniau cynnar ynghylch sut mae ymgysylltu â phobl ar brawf, ychydig o dystiolaeth a welsom o ddatblygiad y cynlluniau hyn.

Roedd ein hymgysylltiad ein hunain â phobl ar brawf wedi darparu darlun cadarnhaol ar y cyfan. Cynhaliom arolwg lle roedd yr ymatebwyr wedi canmol y Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent a rhoi clod i ymarferwyr prawf gweithgar, cyfeillgar ac i'r dull hyblyg o reoli apwyntiadau goruchwylio. Ond roedd hi'n ymddangos bod rhywfaint o amrywiad o ran cyswllt. Roedd adroddiadau bod cyswllt yn digwydd "yn ôl y galw" fel yr oedd y gwasanaethau prawf yn ei weld orau neu "yn ôl yr angen", a bod cymysgedd o drefniadau cyswllt wyneb yn wyneb a dros y ffôn yn cael eu defnyddio.

**Amrywiaeth a chynhwysiant**

Mae amrywiaeth a chynhwysiant yn feysydd pwysig i'w gwella ar draws PDU Gwent hefyd. Mae merched wedi'u gorgynrychioli yn y proffil staff. Mae unigolion ag anabledd wedi'i ddatgan yn ogystal â phobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol wedi'u tangynrychioli yn y gweithlu.

Mae'r gwasanaethau a chymorth ar gyfer nodweddion gwarchodedig yn gyfyngedig hefyd, ac nid yw'r holl ffactorau amrywiaeth neu faterion anghymesuredd yn cael eu nodi nac yn cael sylw digonol. Er ein bod wedi gweld tystiolaeth o ymyriad unigryw ac arbenigol i weithwyr rhyw, mae'r ffocws ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol yn llai eglur. Ni welsom dystiolaeth o unrhyw wasanaethau arbenigol ychwanegol ar gael i bobl sydd ar brawf.

Clywsom fod uwch arweinwyr yn "ymwybodol iawn" o ragfarn ddiarwybod ac yn ein grwpiau ffocws â staff, clywsom eu bod yn teimlo bod materion amrywiaeth wedi dod yn fwy amlwg o lawer. Er bod y rhain yn negeseuon calonogol, ychydig iawn o dystiolaeth a welsom o hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant ffurfiol, ac nid yw'n ymddangos ar y rhestr o hyfforddiant gorfodol i staff newydd ar unrhyw radd.

# 2. Gwaith llys a goruchwylio achosion



Roeddem wedi arolygu 40 o achosion dedfryd gymunedol a 22 o achosion ôl-ryddhau. Roeddem wedi arolygu 33 o adroddiadau llys perthnasol a oedd yn deillio o'r achosion hynny hefyd. Roeddem wedi edrych ar ansawdd asesu, cynllunio, gweithredu a darparu, ac adolygu ym mhob achos. Arolygwyd pob un o'r elfennau hyn mewn perthynas ag ymgysylltu â'r person ar brawf a mynd i'r afael â materion sy'n berthnasol i droseddu ac ymatal. Mae angen i ansawdd y gwaith a wneir mewn cysylltiad â phob elfen o oruchwylio achosion fod yn uwch na throthwy penodol er mwyn ei ystyried yn foddhaol. Roeddem hefyd wedi arolygu'r canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer pobl ar brawf, a darparu data ar y canlyniadau hyn.

Mewn tair elfen – asesu, gweithredu a darparu, ac adolygu – canfuom fod cwestiynau am reoli'r risg o niwed a diogelu pobl eraill wedi cael sgoriau gwael. Er bod arwyddion o ymarfer cadarnhaol mewn meysydd eraill, fel ymgysylltu â'r person sydd ar brawf a chefnogi ymataliad, oherwydd y sgoriau isel yn yr uchod, cafodd y tair elfen hyn y sgôr "Annigonol". Yn yr elfen cynllunio, roedd y sgôr diogelu pobl eraill wedi gwella'n sylweddol, ac felly cafodd yr elfen hôn y sgôr "Angen gwella".

Yn y saith cwestiwn allweddol lle roedd gwahaniaethau amlwg yn y sgoriau, roedd y sgoriau'n uwch ar gyfer achosion ôl-ryddhau. Ar draws PDU Gwent, aseswyd 66 y cant o'r holl achosion, a 70 y cant o'r achosion cymunedol adeg yr arolygiad, fel rhai â risg ganolig o niwed. Ymhlith yr achosion a arolygwyd gennym, aseswyd 23 y cant o achosion cymunedol a phump y cant o achosion ôl-ryddhau fel rhai â risg isel. Aseswyd wyth y cant o achosion cymunedol a 36 y cant o achosion ôl-ryddhau fel rhai â risg uchel o niwed.

Mae'n anodd esbonio'r gwahaniaethau yn y sgoriau a aseswyd gennym rhwng y rhai ar orchmynion cymunedol a'r rhai ar drwydded ôl-ryddhau. Oherwydd bod gwaith cyn rhyddhau yn cael ei gyflawni cyn rhyddhau o'r carchar, mae'n debygol bod unigolion ar brawf sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar yn cael cymorth gan eu hymarferydd prawf a'r asiantaethau allanol sy'n darparu gwasanaethau fel ymyriadau cyffuriau ac alcohol, cymorth llety, a chymorth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'r achosion hyn yn dangos bod asesu, cynllunio a gweithredu o ansawdd da yn bosib er gwaethaf yr amgylchiadau heriol yn sgil cyfyngiadau Covid-19.

Ar ben hyn, roedd pob un o'r pum achos categori dau MAPPA yn rhai ôl-ryddhau, ac roedd yr unig achos categori tri MAPPA a adolygwyd gennym yn destun gorchymyn cymunedol. Roedd yr unig achos a oedd yn destun rheoli troseddwyr integredig (IOM) yn achos ôl-ryddhau hefyd. Oherwydd y niferoedd isel, nid yw'n bosib dweud yn bendant bod gwaith amlasiantaeth wedi arwain at reoli achosion yn fwy effeithiol.

| **Goruchwylio achosion** |
|---|
| **Cryfderau:** |
| • Mae cyflwyno'r system Gweithrediadau, Adsefydlu, Atgyfeirio a Gwerthuso Canolog (CORRE) wedi helpu ymarferwyr prawf i gynllunio'n effeithiol ar gyfer dedfrydau.<br>• Mae ansawdd yr adroddiadau a ddarperir i'r llysoedd i helpu i wneud penderfyniadau yn dda iawn.<br>• Mae'r gwaith gydag achosion ôl-ryddhau yn cyrraedd safon uwch yn gyson. |

| Meysydd i'w gwella: |
|---|
| • Nid yw archwiliadau diogelu a cham-drin domestig yn cael eu cynnal yn rheolaidd i ddylanwadu ar asesiadau.<br>• Mae'r gwaith o weithredu a chyflawni cynlluniau dedfryd yn dameidiog. Anaml yr oedd gwaith ystyrlon ac effeithiol yn cael ei wneud.<br>• Roedd y cyswllt yn annigonol mewn gormod o achosion. Pan oedd y cyswllt ar lefel briodol, roedd yn brin o strwythur ac effaith.<br>• Roedd gorddibyniaeth ar hunan-ddatgeliad gan y person ar brawf, a hynny'n cael ei dderbyn yn ddigwestiwn neu heb gadarnhad yn rhy aml.<br>• Roedd ymarferwyr prawf yn brin o chwilfrydedd proffesiynol ac yn rhy aml, methwyd cyfleoedd i gasglu gwybodaeth bwysig a phroffesiynol gan bobl ar brawf, a fyddai wedi helpu i reoli risg a hybu ymataliad yn briodol. |

| **2.1. Gwaith llys** | ☆ |
|---|---|
| Mae'r wybodaeth a'r cyngor cyn-dedfrydu a ddarperir i'r llys yn cefnogi ei broses o wneud penderfyniadau. | Rhagorol |

Mae ein sgôr ar gyfer gwaith llys yn seiliedig ar ganran yr achosion a arolygwyd gennym a gafodd eu barnu'n foddhaol yn erbyn y cwestiwn allweddol:

| Cwestiwn allweddol | Sgôr |
|---|---|
| **A yw'r cyngor a'r wybodaeth cyn dedfrydu a ddarperir i'r llys yn ddigon dadansoddol a phersonol i'r unigolyn, gan gefnogi proses gwneud penderfyniad y llys?**[5] | 88% |

Cafodd PDU Gwent y sgôr "Rhagorol" ar gyfer gwaith llys. Fel rhan o'n gwaith llys, roeddem wedi asesu 33 o adroddiadau llys. Roedd 70 y cant o'r rhain yn adroddiadau ysgrifenedig fformat byr heb asesiad y System Asesu Troseddwyr. O blith y rhain, aseswyd 18 fel rhai â risg ganolig o niwed difrifol, pedwar â risg isel, ac un â risg uchel.

Dau o'r meysydd cryfaf a welwyd gennym oedd: yn gyntaf, a oedd cyngor yn ystyried amgylchiadau personol ac amrywiaeth yr unigolyn, ac aseswyd bod hynny'n wir mewn 100 y cant o achosion; ac yn ail, mewn 97 y cant o achosion, roeddem wedi asesu bod cofnod digonol o'r cyngor a roddwyd ac o'r rhesymau dros roi'r cyngor. Felly, cafodd 88 y cant o'n hachosion asesiad cadarnhaol ar gyfer y cwestiwn dyfarniad cryno: "A yw'r cyngor a'r wybodaeth cyn dedfrydu a ddarperir i'r llys yn ddigon dadansoddol a phersonol i'r unigolyn, gan gefnogi proses gwneud penderfyniad y llys?"

[5] Mae'r sgôr ar gyfer y cwestiwn allweddol, sy'n cael ei roi mewn band sgorio, yn dylanwadu ar y sgôr ar gyfer y safon.

Fodd bynnag, mae ein pryderon ynglŷn â diogelu ac archwiliadau'r heddlu yn ymestyn i'r gwaith llys. Mewn 70 y cant o'r achosion a aseswyd gennym, nid oedd tystiolaeth o ymholiadau i'r heddlu ynglŷn â cham-drin domestig, a dylai hynny wedi digwydd. Yn yr un modd, mewn 42 y cant o'r achosion a aseswyd gennym, roedd tystiolaeth nad oedd ymholiadau wedi'u gwneud i wasanaethau plant, a dylai hynny wedi digwydd.

Er hynny, roeddem wedi asesu bod y cyngor yn ystyried ffactorau sy'n gysylltiedig â'r risg o niwed mewn 88 y cant o achosion. Ar adeg yr arolygiad, roedd y cwestiynau sy'n ymwneud ag archwiliadau'r heddlu a rhai diogelu yn perthyn i gategori "gwybodaeth yn unig" ein hasesiad, ac felly nid yw effaith hyn wedi'i hadlewyrchu yn y sgoriau sy'n ymwneud â gwaith llys. Er hynny, mae'n hollbwysig bod gwaith yn cael ei wneud ar draws y PDU i sicrhau bod archwiliadau'r heddlu a rhai diogelu yn cael eu cynnal fel mater o drefn, a bod gwybodaeth yn cael ei defnyddio'n briodol i ddylanwadu ar waith llys, asesu, cynllunio, gweithredu a darparu, ac adolygu.

## 2.2. Asesu

| | |
|---|---|
| Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y person sydd ar brawf. | Annigonol |

Mae ein sgôr[6] ar gyfer asesu yn seiliedig ar ganran yr achosion a arolygwyd gennym a gafodd eu barnu'n ddigonol yn erbyn tri chwestiwn allweddol:

| Cwestiwn allweddol | Sgoriau | | |
|---|---|---|---|
| | Dedfrydau cymunedol | Dedfrydau ôl-ryddhau | Pob achos |
| **A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r person sydd ar brawf?** | 63% | 77% | 68% |
| **A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu ac ymatal rhag troseddu?** | 63% | 77% | 68% |
| **A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddiogelu pobl eraill?** | 43% | 55% | **47%** |

Y sgôr isaf ar gyfer y cwestiynau allweddol oedd 47 y cant; mae hyn yn ymwneud ag a yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddiogelu pobl eraill. O ganlyniad, mae'r sgôr yn perthyn i'r band sgoriau "Annigonol" ac mae'r PDU wedi cael y sgôr "Annigonol" yn gyffredinol ar gyfer asesu. Mae asesu'n elfen hollbwysig o allu diogelu

[6] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl.

pobl; mae asesiad da o risg yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn defnyddio tystiolaeth ystadegol, wedi'i lywio gan ymchwil i'r ffactorau risg tebygol ar gyfer y math o droseddu, ond wedi'i bersonoli hefyd. Mae asesiadau da o risg yn sail i gynllun rheoli risg sy'n defnyddio prosesau cefnogol a rhwystrol i leihau'r risg o niwed pellach, a'i effaith. Felly, ni ddylid tanbrisio pwysigrwydd asesiad da. Yr achosion a gafodd y sgoriau uchaf yn y maes hwn oedd yr asesiadau a oedd yn nodi cryfderau a ffactorau diogelu'r person ar brawf, a'r asesiadau hynny lle roedd y person ar brawf wedi cymryd rhan ystyrlon yn ei asesiad, a lle ystyriwyd ei safbwyntiau. Dyma enghraifft dda o hyn:

**Enghraifft o ymarfer da**

Mae asesiad Kara'n ystyried ei hymgysylltiad blaenorol â gwasanaethau, ac yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ei lefel cymhelliant ar y pryd. Fel y dylid, mae hefyd yn cynnwys manylion ystod o faterion personol ac amrywiol sydd wedi ei rhwystro rhag ymgysylltu yn y gorffennol. Mae'r asesiad yn nodi anghenion cymhleth Kara ac yn cynnwys hunanasesiad a oedd yn caniatáu i Kara ddarparu ei safbwyntiau ei hun, a ddylanwadodd ar yr asesiad wedyn.

Ar y llaw arall, roedd diffyg archwiliadau diogelu a dyma ein prif bryder yn yr elfen asesu, yn enwedig mewn cysylltiad â cham-drin domestig lle na chynhaliwyd archwiliadau i ddylanwadu ar asesiadau, pan ddylai hynny wedi digwydd, mewn 68 y cant o achosion. Roedd y darlun ychydig yn fwy calonogol ar gyfer rhannu gwybodaeth mewn cysylltiad â diogelu plant, a oedd yn absennol mewn 35 y cant o achosion. Mae'r diffyg archwiliadau angenrheidiol i ddylanwadu'n ddigonol ar asesiadau wedi'i ddangos yn y data asesu achosion, a'r sgôr "Annigonol" canlyniadol, ond roedd hefyd yn glir yn ein cyfweliadau â staff, a oedd yn ymddangos wedi drysu ynghylch y trefniadau rhannu gwybodaeth ar gyfer diogelu plant ac oedolion, a'r heddlu.

Mae gwahaniaeth yn ein barn ar ansawdd yr asesiadau o'r risg o niwed a gynhaliwyd ag unigolion ar orchymyn cymunedol, o'u cymharu â'r rhai ar drwydded ôl-ryddhau. Fodd bynnag, ym mhob achos, roedd y sgoriau a oedd yn ymwneud ag asesu ymataliad ac ymgysylltu â phobl ar brawf yn well o lawer. Roedd y sgoriau yn y meysydd hyn yn perthyn i'r band sgoriau "Da". Mae asesu wedi cael "Annigonol" fel sgôr cyffredinol o ganlyniad i'r sgôr isel ar gyfer asesiadau'n canolbwyntio'n ddigonol ar ddiogelu pobl eraill, fel y gwelir yn yr enghraifft hon:

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Yn asesiad Fran, roedd cysylltu â gofal cymdeithasol yn hollbwysig i gynyddu dealltwriaeth yr ymarferydd prawf o'r risg yr oedd Fran yn ei pheri i'w phlant ei hun. Fodd bynnag, ni fu unrhyw gyswllt. O ganlyniad i hyn, nid oedd unrhyw ddealltwriaeth o ba bryd cafodd plant Fran eu rhoi mewn gofal na beth oedd y trefniadau o ran hawl Fran i gael cyswllt. Yn asesiad Fran, nid oedd unrhyw ddadansoddiad o'r drosedd a dim ond ychydig o gyd-destun mewn cysylltiad â throsedd flaenorol yn erbyn plentyn. Ni chafodd archwiliadau'r heddlu eu cynnal chwaith, er bod Fran wedi datgelu ei bod hi wedi dioddef camdriniaeth ddomestig, a allai fod wedi bod yn ffactor arwyddocaol o ran ei risg o aildroseddu.

## 2.3. Cynllunio

| | |
|---|---|
| Mae cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn holistaidd ac wedi'i bersonoli, ac mae'n cynnwys yn weithredol y person sydd ar brawf. | Angen gwella |

Mae ein sgôr[7] ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar ganran yr achosion a arolygwyd gennym a gafodd eu barnu'n foddhaol yn erbyn y tri chwestiwn allweddol:

| Cwestiwn allweddol | Sgoriau | | |
|---|---|---|---|
| | **Dedfrydau cymunedol** | **Dedfrydau ôl-ryddhau** | **Pob achos** |
| **A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r person sydd ar brawf?** | 50% | 55% | **52%** |
| **A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad?** | 60% | 73% | 65% |
| **A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar ddiogelu pobl eraill?** | 58% | 50% | 55% |

Y sgôr isaf ar gyfer y cwestiynau allweddol oedd 52 y cant; mae hyn yn ymwneud ag a yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r person sydd ar brawf. O ganlyniad, mae'r sgôr yn perthyn i'r band sgoriau "Angen gwella" ac mae'r PDU wedi cael y sgôr "Angen gwella" yn gyffredinol ar gyfer cynllunio. Mae'r darlun cyffredinol o ran cynllunio yn well na'r darlun cyffredinol o ran asesu, gweithredu a darparu, ac adolygu, ond yn bryderus roeddem wedi canfod mai dim ond mewn ychydig dros hanner o'r achosion a adolygwyd gennym yr ymgysylltwyd yn ystyrlon â'r unigolion ar brawf ynghylch cynllunio. Gallai hyn fod o ganlyniad i'r cyfyngiadau a orfodwyd gan fodelau darparu eithriadol mewn cysylltiad â natur a hyd y cyswllt â phobl ar brawf. Ond roeddem yn falch o weld, mewn 61 y cant o achosion, bod y gwaith cynllunio wedi ystyried yn ddigonol amgylchiadau personol yr unigolyn a allai effeithio ar ymgysylltiad a chydymffurfedd.
Hefyd, mewn 69 y cant o achosion, roedd y gwaith cynllunio wedi ystyried yn ddigonol parodrwydd a chymhelliant y person ar brawf i newid.

[7] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl.

O ystyried y pryderon a godwyd ynglŷn ag asesu, efallai nad yw'n syndod bod y risg o niwed yn faes cynllunio sy'n peri pryder. Roeddem wedi canfod mai dim ond 42 y cant o achosion a oedd wedi rhoi sylw digonol i'r ffactorau risg o niwed a blaenoriaethu'r rhai mwyaf hanfodol. Gwelsom dystiolaeth o waith cynllunio'n methu nodi ffactorau'n ymwneud â cham-drin domestig, ac o ganlyniad ni chynlluniwyd unrhyw waith i roi sylw i'r ffactor risg hwn, fel y dangosir yn yr enghraifft hon:

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Er bod Michael wedi nodi cyfranogiad parhaus gwasanaethau plant, ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i ddiogelu plant yn y cynllun rheoli risg ac ni nodwyd gwasanaethau plant fel asiantaeth arall a oedd yn rhan o'r achos hwn. Ar ben hynny, ni chafodd archwiliadau'r heddlu eu cynnal ac o ganlyniad, nid oedd y cynllun yn nodi sut byddai'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig yn cael eu rheoli. Er bod rhywfaint o ystyriaeth wedi'i rhoi i ymyriadau i fynd i'r afael â ffactorau sy'n ymwneud â'r brif drosedd, roedd yn rhy gyffredinol, er enghraifft "gwaith sy'n canolbwyntio ar y troseddu ac ymwybyddiaeth o ddioddefwyr". Roedd y gwaith cynllunio wrth gefn yn cynnwys un llinell yn nodi y byddai Michael yn cael ei ddychwelyd i'r llys pe bai'n peidio â chydymffurfio.

Fel y nodwyd yn flaenorol, lle roedd gwahaniaethau nodedig mewn sgoriau, roedd achosion ôl-ryddhau wedi sgorio'n well nag achosion cymunedol o ran cynllunio, a gwelsom enghreifftiau da o gynllunio cyn rhyddhau lle ymgysylltwyd yn ystyrlon ag unigolion ar brawf, a oedd yn rhan ganolog o'r broses gwneud penderfyniadau, a lle roedd ymarferwyr prawf yn mynd ati'n gyson i rannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill a oedd yn rhan ganolog o'r gwaith cynllunio, fel yr enghraifft hon:

**Enghraifft o ymarfer da**

Mae'r gwaith cynllunio yn achos Graham yn dechrau yn y carchar ac yn cynnwys Graham mewn cyfarfod cyn rhyddhau cynhwysfawr. Mae'r cyfarfod hwn yn mynd i'r afael ag anghenion ailsefydlu Graham ac yn dechrau cynllunio ar eu cyfer. Mae gwaith cynllunio da i gefnogi anghenion iechyd meddwl a lles emosiynol Graham, sy'n gysylltiedig â phrofedigaeth. Hefyd mae gwaith cynllunio effeithiol i gynyddu lefel ymgysylltu Graham ar ôl rhyddhau, oherwydd mae lefelau Graham yn hynny o beth wedi bod yn isel yn y gorffennol.

Roedd y gwaith cynllunio lle nodwyd y gwasanaethau a oedd fwyaf tebygol o leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad yn dda hefyd, a gwelsom nifer o achosion lle roedd amcanion y cynllun dedfryd yn rhesymol, yn gyraeddadwy ac wedi'u llywio gan y person ar brawf. Fodd bynnag, thema a oedd yn codi dro ar ôl tro oedd y diffyg gwaith cynllunio digonol ar gyfer gwaith di-dâl. Roedd ystyried diogelu mewn achosion gwaith di-dâl unigol, diffyg ystyriaeth i gyflogaeth fel rhwystr posib i allu cyflawni gwaith di-dâl, a diffyg gwaith cynllunio wrth gefn ar gyfer pa gamau fydd eu hangen o bosib os na ellir cyflawni oriau gwaith di-dâl oll wedi cyfrannu at sgoriau gwael o ran cynllunio.

Hefyd gwelsom nifer o achosion lle nad oedd cynllun dedfryd cychwynnol wedi'i lunio. Mae'n bosib bod hyn yn gysylltiedig â phrydlondeb apwyntiadau cychwynnol a'r pwysau amser canlyniadol ar gyfer llunio cynlluniau terfynol. Ar adeg yr adolygiad, 83 y cant oedd y ffigur ar gyfer prydlondeb apwyntiadau cychwynnol ar gyfer gorchmynion cymunedol, ond eto roedd hyn yn uwch o lawer – 100 y cant – mewn

achosion ôl-ryddhau. Mae hefyd yn debygol bod amlder newidiadau staff wedi cyfrannu at y sgoriau gwael, ond gallai hyn fod yn ffactor sydd wedi cyfrannu at holl elfennau parth dau, ac nad yw'n gyfyngedig i waith cynllunio.

## 2.4. Gweithredu a darparu

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaethau cydlynol, personol o ansawdd uchel, gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r person sydd ar brawf. | Annigonol |

Mae ein sgôr[8] ar gyfer gweithredu a darparu yn seiliedig ar ganran yr achosion a arolygwyd gennym a gafodd eu barnu'n foddhaol yn erbyn tri chwestiwn allweddol:

| Cwestiwn allweddol | Sgoriau | | |
|---|---|---|---|
| | Dedfrydau cymunedol | Dedfrydau ôl-ryddhau | Pob achos |
| **A yw'r ddedfryd neu'r cyfnod ar ôl carchar yn cael ei weithredu'n effeithiol gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r person sydd ar brawf?** | 58% | 77% | 65% |
| **A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi ymataliad yn effeithiol?** | 31% | 50% | **38%** |
| **A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?** | 31% | 50% | **38%** |

Y sgôr isaf ar gyfer y cwestiynau allweddol oedd 38 y cant; mae hyn yn ymwneud â gweithredu a chyflawni i gefnogi ymataliad, a diogelu pobl eraill. O ganlyniad, mae'r PDU wedi cael y sgôr "Annigonol" ar gyfer gweithredu a darparu yn gyffredinol. Rydym yn cydnabod bod nifer o ffactorau allanol fel pandemig Covid-19, uno a'r problemau staffio sylweddol ar draws PDU Gwent a fydd, heb amheuaeth, wedi effeithio ar allu'r gwasanaeth i weithredu a darparu. Mae'r heriau hyn yn dangos pa mor bwysig yw glynu wrth hanfodion darparu gwasanaethau prawf a defnyddio asiantaethau partner yn gyson i helpu i hybu ymataliad, a rheoli'r risg o niwed. Er hynny, rydym wedi canfod absenoldeb cyffredinol o'r lefelau isaf posib byddem yn disgwyl eu gweld o ran darpariaeth gwasanaethau, yn ogystal â diffyg dibyniaeth ar bartneriaid.

[8] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl.

Yr achosion a gafodd sgoriau uwch yn y maes hwn oedd y rhai lle ymgysylltwyd yn gadarnhaol â phobl ar brawf. Roeddem wedi asesu bod y ddedfryd neu'r cyfnod ar ôl carchar wedi'i weithredu'n effeithiol, gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r person ar brawf, mewn 65 y cant o achosion. Yn ogystal â hynny, rhoddwyd digon o ffocws ar gynnal perthynas waith effeithiol â'r person sydd ar brawf, gan ystyried ei anghenion amrywiaeth, mewn 63 y cant o achosion. Yn galonogol, cafodd digon o ymdrechion eu gwneud i alluogi'r unigolyn i gwblhau ei ddedfryd, gan gynnwys hyblygrwydd i roi ystyriaeth briodol i'w amgylchiadau personol, mewn 68 y cant o achosion.

Yr achosion na chafodd sgoriau cystal oedd y rhai lle roedd yr unigolyn ar brawf wedi cael dau, dri neu fwy na thri ymarferydd prawf ers dechrau'r gorchymyn yr oeddem yn ei asesu. Nid oes amheuaeth fod hyn hefyd yn deillio o'r problemau staffio di-baid yn y PDU, ond ni ellir tanbrisio effaith ailddyrannu achosion cynifer o weithiau. Mae effaith niweidiol nifer o newidiadau, i'r unigolyn ar brawf ac i ymarferwyr prawf, wedi'i dangos yn y sgoriau isel ar draws holl elfennau parth dau ac mae'n cael ei pharhau gan y cylch o salwch staff ac ailddyrannu achosion. Mae angen i'r PDU fynd i'r afael â'r effaith ganlyniadol ar ddarparu gwasanaethau, a welir yn sgoriau parth dau yr arolygiad hwn, fel mater o frys.

Roedd dau faes pryder arall yn yr elfen gweithredu a darparu – ymweliadau cartref a gwaith gyda dioddefwyr. Mewn 57 y cant o achosion, ni chynhaliwyd ymweliadau cartref lle bo angen gwneud hynny i gefnogi'r gwaith o reoli'r risg o niwed yn effeithiol. Yn yr un modd, ni roddwyd digon o sylw i ddiogelu dioddefwyr gwirioneddol a phosib mewn 48 y cant o achosion. Mae'r meysydd hyn ill dau wedi cyfrannu at asesu nad oedd gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol mewn 62 y cant o achosion. Eto, mae'n debygol bod cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â phandemig Covid-19 wedi effeithio ar amlder ymweliadau cartref ac ar ymgysylltu â dioddefwyr. Fodd bynnag, mae'r meysydd hyn yn hollbwysig o ran gallu'r PDU i ddiogelu pobl ac felly, o'u hystyried ochr yn ochr ag absenoldeb archwiliadau'r heddlu a rhai diogelu mewn gwaith llys ac asesiadau, mae'n achosi pryder difrifol o ran a yw gwaith y PDU yn ddigon i reoli'r risg o niwed yn effeithiol ac i ddiogelu pobl.

### 2.5. Adolygu

| | |
|---|---|
| Mae'r gwaith o adolygu cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac wedi'i bersonoli, ac mae'n cynnwys yn weithredol y person sydd ar brawf. | Annigonol |

Mae ein sgôr[9] ar gyfer adolygu yn seiliedig ar ganran yr achosion a arolygwyd gennym a gafodd eu barnu'n foddhaol yn erbyn tri chwestiwn allweddol:

| Cwestiwn allweddol | Sgoriau | | |
|---|---|---|---|
| | Dedfrydau cymunedol | Dedfrydau ôl-ryddhau | Pob achos |

[9] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi cydymffurfedd ac ymgysylltiad y person sydd ar brawf?** | 50% | 73% | 58% |
| **A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad?** | 42% | 57% | 47% |
| **A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar ddiogelu pobl eraill?** | 36% | 64% | **46%** |

Y sgôr isaf ar gyfer y cwestiynau allweddol oedd 46 y cant; mae hyn yn ymwneud ag a yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar ddiogelu pobl eraill. O ganlyniad, mae'r PDU wedi cael y sgôr "Annigonol" ar gyfer adolygu yn gyffredinol. Mae'r gwahaniaethau a welwyd yn y tair elfen arall yn llai amlwg; ond o ran diogelu pobl, mae'r gwahaniaeth yr un mor amlwg.

Disgwylir y bydd achos yn cael ei adolygu yn dilyn newid arwyddocaol mewn amgylchiadau, neu ar ôl chwe mis. Gallai newidiadau gynnwys ymarferydd prawf newydd, neu i'r unigolyn ar brawf gallent olygu newid mewn amgylchiadau fel trosedd arall, dechrau perthynas newydd, perthynas yn dod i ben, neu nifer o newidiadau eraill. Mewn rhai o'r achosion a adolygwyd gennym, gwelsom fod adolygiadau priodol wedi'u cynnal a'u cofnodi'n briodol, weithiau oherwydd newid mewn ymarferwr ond fel arfer oherwydd newidiadau yn amgylchiadau'r person ar brawf. Yn ystod ein cyfweliadau â staff, gwelsom dystiolaeth o achosion yn cael eu hadolygu, er nad oedd cofnod ffurfiol o adolygiad. Wrth siarad ag ymarferwyr prawf roedd hi'n amlwg bod adolygu achosion ar y gyfradd ofynnol yn anghynaladwy ac eto roedd hyn yn gysylltiedig yn aml â newidiadau staff, ac ailddyrannu achosion. Mae hyn yn peri pryder arbennig wrth ystyried enghreifftiau fel yr un canlynol:

| **Enghraifft o ymarfer gwael** |
|---|
| Yn achos Paul, roedd nifer o newidiadau wedi digwydd. Dylai hyn fod wedi arwain at adolygiad ac ystyriaeth i weithredu cynllun rheoli risg uwch. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys Paul yn cymryd rhan mewn nifer o sesiynau ymyriadau ar gyfer camddefnyddio alcohol yn y safle cymeradwy, a ddylai fod wedi sbarduno atgyfeiriad at wasanaethau cymunedol i barhau â'r ymyriad hwn ar ôl iddo symud o'r safle cymeradwy, gan fod alcohol yn ffactor risg critigol yn nhroseddu Paul. Yn ogystal â hynny, dylai gadael y safle cymeradwy a newid arwyddocaol mewn llety fod wedi cychwyn adolygiad, yn enwedig oherwydd bod hyn wedi arwain at golli nifer o reolaethau risg allanol fel cyrffyw, amseroedd cofrestru dyddiol a monitro ymddygiad uwch gan staff y safle cymeradwy. Hefyd, dylai'r trefniadau monitro ar gyfer y cyswllt cymeradwyo â merch Paul wedi cael eu harchwilio i sicrhau bod unrhyw gyswllt yn cael ei oruchwylio. Hefyd, dylai cyswllt fod wedi'i wneud â gwasanaethau plant pan oedd Paul yn disgwyl cyfathrebiad ysgrifenedig ac yn teimlo'n isel o ganlyniad i ddiffyg eglurder ynghylch cyswllt o'r fath. Yn olaf, ac yn fwyaf pryderus o bosib, dylai gwybodaeth am berthynas newydd bosib fod wedi sbarduno ymchwiliad mwy gweithredol gan yr ymarferydd prawf gyda'r unigolyn ar brawf a gydag asiantaethau partner, gan fod Paul wedi'i asesu fel bod yn peri risg |

uchel o niwed difrifol i bartneriaid a'i fod wedi cael amod trwydded dilynol a oedd yn mynnu datgeliad.

Yr achosion a gafodd sgoriau uwch yn y maes hwn oedd y rhai lle roedd y person ar brawf wedi'i gynnwys yn ystyrlon yn yr adolygiad ynghyd ag unigolion neu asiantaethau eraill a oedd yn gweithio gyda'r unigolyn, lle bo hynny'n briodol. Drwy wneud hynny, gellir datblygu cynllun clir sy'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi cydymffurfedd ac ymgysylltiad y person sydd ar brawf, fel y gwelir yn yr enghraifft hon:

**Enghraifft o ymarfer da**

Cynhaliwyd adolygiad yn achos Christopher ar ôl i'r ymarferydd prawf newid. Roedd yr ymarferydd prawf newydd yn bresennol yn y cyfweliad gan gydnabod, hyd hynny, nad oedd unrhyw broblemau cydymffurfio amlwg wedi codi. Fodd bynnag, cydnabyddodd yr ymarferydd hefyd y gallai'r newid fod yn ffactor ansefydlogi i Christopher. Mewn ymateb, lliniarodd yr ymarferydd hyn drwy roi o'i amser i feithrin perthynas waith effeithiol â Christopher, a helpodd i ddylanwadu ar yr adolygiad.

Yr achosion a gafodd sgoriau is oedd y rhai nad oedd wedi cynnwys y person ar brawf yn ystyrlon wrth adolygu'r risg o niwed, a'r rhai na wnaeth nodi a mynd i'r afael â newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â'r risg o niwed, gan beidio â gwneud yr addasiadau angenrheidiol i'r cynllun gwaith parhaus.

Mae'r diffyg gwaith o ran gweithredu a darparu wedi golygu, wrth reswm, mai ychydig iawn o waith sydd i'w adolygu. Hyd yn oed pan oedd amlder y cyswllt yn cyd-fynd â'n disgwyliadau, mae'r diffyg gwaith ystyrlon neu effeithiol a wnaed yn ystod y cysylltiadau hyn wedi golygu mai ychydig sydd i'w adolygu. Er bod y sgoriau ychydig yn well yn yr achosion ôl-ryddhau, eto un o'r agweddau allweddol ar adolygu, yn yr un modd â'r tair elfen flaenorol o waith achos, yw diogelu pobl. Dim ond mewn 46 y cant o achosion yr oedd y gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar ddiogelu pobl eraill.

## 2.6. Canlyniadau

Mae'r canlyniadau cynnar yn gadarnhaol, gan ddangos cynnydd rhesymol i'r person sydd ar brawf.

| Canlyniadau | Dedfrydau cymunedol | Dedfrydau ôl-ryddhau | Pob achos |
|---|---|---|---|
| **A yw'r canlyniadau cynnar yn dangos bod cynnydd rhesymol wedi'i wneud, yn unol ag anghenion personol y person sydd ar brawf?** | 28% | 38% | 31% |

Nid ydym yn rhoi sgôr i’r safon Canlyniadau ar hyn o bryd, dim ond yn darparu’r data hyn at ddibenion gwybodaeth a meincnodi. Wrth reswm, os nad yw gwasanaethau ac ymyriadau’n cael eu darparu, ni fydd canlyniadau i’w gweld, ac mae hynny’n wir yn yr arolygiad hwn. Fel y mae data parth dau yn ei ddangos, roeddem wedi canfod mewn llawer o’r achosion a adolygwyd gennym y bu cyswllt annigonol â’r person ar brawf. Pan oedd lefel y cyswllt yn ddigonol, roedd natur y cyswllt yn brin o strwythur ac effaith yn rhy aml, ac er ein bod yn derbyn bod rhesymau am hynny o bosib, mae wedi effeithio ar ganlyniadau yn amlwg.

Mewn llawer o’r achosion a adolygwyd gennym lle roedd cynnydd yn cael ei wneud o ran darparu gwasanaethau, roedd hynny’n deillio o gyfranogiad asiantaethau partner fel y rhai a gomisiynwyd drwy’r fframwaith Gwasanaethau Adsefydlu wedi’u Comisiynu. Fodd bynnag, pan siaradon â darparwyr Gwasanaethau Adsefydlu wedi’u Comisiynu, roeddent yn disgrifio bod angen i CORRE “ddiffodd y tap” o ran atgyfeiriadau gan eu bod wedi’u boddi ganddynt ac nad oeddent yn gallu ateb y galw.

O ganlyniad, nid oedd unrhyw ymyriadau wedi’u darparu yn y rhan fwyaf o’r achosion a adolygwyd gennym. Gallai hynny fod o ganlyniad i’r newidiadau a oedd yn ofynnol yn sgil uno a/neu’r cyfyngiadau a orfodwyd oherwydd pandemig Covid-19, ac felly nad yw’n broblem sy’n benodol i Gwent. Er hynny, mae angen gwneud gwaith sylweddol i wella’r canlyniadau yn y PDU. Gallai hyn gynnwys parhau i fynd i’r afael â’r ôl-groniadau o ran gwaith di-dâl a rhaglenni achrededig, uwchsgilio staff er mwyn iddynt deimlo’n hyderus yn darparu ymyriadau eu hunain, a rheoli nifer yr atgyfeiriadau i ddarparwyr Gwasanaethau Adsefydlu wedi’u Comisiynu. Hefyd, mae’n bosib y bydd angen i’r rhanbarth ystyried a oes gan ddarparwyr Gwasanaethau Adsefydlu wedi’u Comisiynu ddigon o adnoddau i ddarparu nifer y gwasanaethau sydd eu hangen ar y PDUs.

# Atodiad un – Cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol

Mae Arolygiaeth Prawf EM wedi gwneud argymhellion ar gyfer y cwmnïau adsefydlu cymunedol blaenorol (CRC) ac adrannau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS), sy'n deillio o arolygiadau craidd a thematig. Ers uno'r Gwasanaeth Prawf, rydym wedi disgwyl i'r Gwasanaeth barhau i weithredu'r argymhellion hyn. Gweler isod ein canfyddiadau o arolygiad Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf (PDU), Gwent mewn cysylltiad â'r argymhellion perthnasol:

**Argymhelliad o arolygiad blaenorol o'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol ym mis Chwefror 2019:**

Rheoli llwyth gwaith staff yn well, a darparu digon o staff i ddarparu gwasanaethau yn ôl y bwriad.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Y llwyth achosion cyfartalog yw 28 i swyddogion prawf a 41 i swyddogion gwasanaethau prawf. Mae gan 44 y cant o swyddogion prawf a 27 y cant o swyddogion gwasanaethau prawf lwyth achosion sy'n fwy na tharged yr adnodd mesur llwyth gwaith lleol, sy'n awgrymu nad yw'n bosib rheoli llwyth gwaith nifer o ymarferwyr. Ym mis Mehefin 2021, dim ond ar y radd uwch swyddog prawf a swyddog prawf yr oedd swyddi gwag. Nid oedd unrhyw swyddi gwag ar lefel staff gweinyddol neu staff ymyriadau/adsefydlu.
- Yn yr arolwg ymarferydd, dywedodd 50 y cant o staff eu bod yn teimlo nad yw eu llwyth gwaith yn hawdd iawn ei reoli. Roedd 30 y cant yn teimlo nad yw'n bosib ei reoli o gwbl ac 20 y cant yn teimlo ei fod yn eithaf hawdd ei reoli. Hefyd roedd adborth o'r arolwg staff yn dangos bod 100 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod y lefelau staffio yn annigonol. Cafodd hyn ei adleisio gan y staff y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n grwpiau ffocws. Roedd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn disgrifio'r sefyllfa fel bod "y gwaethaf mae wedi bod erioed" a dweud eu bod yn agos i "fod wedi ymlâdd yn llwyr". Er bod staff yn cydnabod y cymorth gan eu rheolwr, ac yn wir gan bennaeth y PDU, mae'n amlwg bod problem staffio enbyd ac ni ddylid bychanu difrifoldeb y broblem hon o ran ei heffaith ar les staff.
- I gydnabod hyn, roedd y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol wedi cytuno ar strategaeth rheoli'r galw arwyddocaol ond ar adeg yr arolygiad, dim ond newydd ddigwydd oedd hyn ac mae'n debygol o gymryd cryn amser cyn y bydd hyn o fudd i staff o ran eu llwyth gwaith.

| | |
|---|---|
| **Categoreiddio** | **Dim cynnydd** |
| **Angen gwella o hyd?** | **Oes** |

**Argymhelliad o arolygiad blaenorol o'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol ym mis Chwefror 2019:**

Gwella ansawdd cynllunio er mwyn mynd i'r afael â'r risg o niwed a diogelu.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Yn dilyn yr arolygiad diwethaf o Gwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, roedd ein hadolygiad rheoli achosion parth dau yn dangos bod gwaith cynllunio'n

canolbwyntio'n ddigonol ar ddiogelu pobl eraill mewn 48 y cant o achosion. Yn yr arolygiad hwn o PDU Gwent, roedd y ffigur hwn wedi codi i 55 y cant.

| | |
|---|---|
| **Categoreiddio** | **Rhywfaint o gynnydd** |
| **Angen gwella o hyd?** | **Oes** |

**Argymhelliad o arolygiad blaenorol o'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol ym mis Chwefror 2019:**

Darparu hyfforddiant a datblygiad sy'n diwallu anghenion staff ac yn monitro effaith hyfforddiant ar ymarfer.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff gwblhau hyfforddiant craidd a dangos cymhwysedd cyn dyrannu achosion cymhleth. Yn ein cyfarfodydd â staff, roedd llawer ohonynt wedi nodi anghenion dysgu, yn enwedig mewn cysylltiad â darparu ymyriadau.
- Adeg yr arolygiad, roedd 69 y cant o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu oedolion, 80 y cant wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant, 73 y cant wedi cwblhau hyfforddiant ar drais domestig a 62 y cant o staff wedi cwblhau hyfforddiant WRAP3.
- Yn yr arolwg ymarferwyr, dywedodd 55 y cant fod y sefydliad yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus yn frwd, ac roedd 60 y cant yn teimlo bod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad priodol ar gyfer yr achosion sy'n cael eu dyrannu iddynt bob amser.
- Roedd hi'n amlwg bod rhai o ddysgwyr y Cymhwyster Proffesiynol mewn Gwaith Prawf a oedd wedi'u cyflogi fel swyddogion gwasanaethau prawf yn flaenorol yn teimlo nad oedd eu hanghenion dysgu'n cael blaenoriaeth, gan ddisgrifio eu bod yn "cael eu defnyddio fel adnodd swyddogion gwasanaethau prawf" a oedd yn effeithio'n niweidiol ar eu gallu i fodloni'r gofynion angenrheidiol i ddatblygu o swyddogion prawf dan hyfforddiant i swyddogion newydd gymhwyso.

| | |
|---|---|
| **Categoreiddio** | **Rhywfaint o gynnydd** |
| **Angen gwella o hyd?** | **Oes** |

**Argymhelliad o arolygiad blaenorol o'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol ym mis Chwefror 2019:**

Galluogi rheolwyr tîm i ddarparu goruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr dros ymarfer.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Yn ein harolwg ymarferwyr, dywedodd 50 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn cael goruchwyliaeth sy'n gwella ansawdd eu gwaith gyda phobl ar brawf.
- Mewn grwpiau ffocws gyda staff ar draws graddau, gwelsom ddarlun cymysg o ran goruchwyliaeth strwythuredig a goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar achosion. Adroddodd rhai staff gyfnodau hir, hyd at ddwy flynedd mewn rhai achosion, ers eu sesiwn oruchwylio ffurfiol ddiwethaf.
- Dywedodd rheolwyr canol wrthym fod ganddynt bolisi drws agored a'u bod wedi cynyddu'r lefelau goruchwylio mewn ymateb i'r broblem staffio enbyd, ac i'r cynnydd cysylltiedig mewn llwythi gwaith.

| | |
|---|---|
| **Categoreiddio** | **Rhywfaint o gynnydd** |

**Angen gwella o hyd?** **Oes**

**Argymhelliad o arolygiad blaenorol o'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol ym mis Chwefror 2019:**

Gwella'r gwaith o gydlynu gweithgareddau ailsefydlu.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Ers mis Mehefin 2021, mae staff sy'n cael eu cyflogi i ddarparu cymorth ailsefydlu i bobl sy'n gadael y carchar wedi cael eu cyflogi gan y tîm dedfrydau tymor byr a rhanbarth Cymru, felly mae PDU Gwent ymysg y cyntaf i fabwysiadu'r model ailsefydlu hwn.
- Mae'r model rheoli troseddwyr yn y carchar (OMiC), sydd wedi'i ddylunio ar gyfer dynion sy'n bwrw dedfrydau tymor hirach, yn dal yn achosi problemau a'r canfyddiad gan staff yw bod perthynas gymhleth rhwng y modelau ailsefydlu ac OMiC. Dywedodd staff fod ganddynt ychydig neu ddim amser o gwbl i ddeall y berthynas hon. O ganlyniad, mae'r rhai â dedfrydau hirach yn llai tebygol o gael y gwasanaeth dylent ei ddisgwyl gan y model OMiC.

**Categoreiddio** **Rhywfaint o gynnydd**

**Angen gwella o hyd?** **Oes**

**Argymhelliad o arolygiad blaenorol o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2018:**

Adolygu a rheoli llwythi gwaith yn weithredol er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei ddosbarthu'n deg ac yn effeithlon.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Cafodd fframwaith haenau newydd ei gyflwyno ar draws Cymru a Lloegr ym mis Mehefin 2021. Cafodd fframwaith llwyth gwaith newydd ei fabwysiadu hefyd. Er y canllawiau canolog, mae Gwasanaeth Prawf Cymru wedi mabwysiadu rhywfaint o amrywiadau a phwysoliadau i adlewyrchu cymhlethdodau rhai gwasanaethau arbenigol, yn enwedig y tîm dedfrydau tymor byr, Rheoli Integredig Troseddwyr (IOM) a thimau WISDOM. Mae gan bob un o'r rhain lwyth achosion cyfartalog sydd dros 110 y cant ar yr adnodd mesur llwyth gwaith.
- Clywsom gan ymarferwyr prawf fod y rhai mewn timau arbenigol fel IOM yn dal yn cael llwyth achosion nad yw'n arbenigol, neu 'gyffredinol'. Dywedodd staff fod hyn yn "anodd arnynt" a'u bod yn teimlo eu bod "mewn limbo, yn pontio rhwng dau lwyth achos". Clywsom fod llwyth gwaith rhai swyddogion WISDOM yn cael ei leihau yn ôl yr angen, ond nad oedd hynny'n wir i bawb. Roedd hi'n ymddangos bod hwn yn fater daearyddol sy'n amrywio rhwng swyddfeydd.

**Categoreiddio** **Dim cynnydd**

**Angen gwella o hyd?** **Oes**

**Argymhelliad o arolygiad blaenorol o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2018:**

Gwella'r broses o gael gwybodaeth berthnasol gan y gwasanaethau plant ac unedau cam-drin domestig ym mhob achos perthnasol.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Gwelsom dystiolaeth o staff yn gorddibynnu ar y wybodaeth a ddarparwyd iddynt yn anffurfiol gan gyd-weithwyr, yn hytrach na mynd ati i ganfod y wybodaeth eu hunain. Roedd hi'n glir nad oedd y trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth am risg a ddiogelu yn gweithio mor effeithiol ag y mae angen iddynt er mwyn hybu ymataliad a diogelu'r cyhoedd yn effeithiol. Roedd staff wedi drysu ynghylch y canolfannau ddiogelu amlasiantaeth a pha awdurdodau lleol oedd yn rhan ohonynt. Clywsom fod hyn yn golygu bod ymarferwyr yn e-bostio gweithwyr cymdeithasol yn uniongyrchol yn aml, gan aros cryn amser am ymateb.
- Ar adeg yr arolygiad, nid oedd digwyddiadau hysbysadwy wedi'u sefydlu; fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod cronfa ddata wedi'i datblygu ac y byddai'n cael ei chyflwyno ar draws y PDU yn fuan.
- Mae'r data adolygu achosion yn dangos na chynhaliwyd archwiliadau cam-drin domestig, pan ddylent fod wedi'u cynnal, mewn 68 y cant o achosion. Mewn 35 y cant o'r achosion a adolygwyd, nid oedd gwybodaeth am ddiogelu plant wedi'i rhannu, pan ddylai fod wedi.

| | |
|---|---|
| **Categoreiddio** | **Dim cynnydd** |
| **Angen gwella o hyd?** | **Oes** |

**Argymhelliad o arolygiad blaenorol o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2018:**

Cynnal asesiadau risg o niwed ym mhob achos perthnasol.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Yn ein hadolygiadau o achosion, canfuom fod 72 y cant o asesiadau wedi nodi a dadansoddi ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu.

| | |
|---|---|
| **Categoreiddio** | **Cynnydd digonol** |
| **Angen gwella o hyd?** | **Nac oes** |

**Argymhelliad o arolygiad blaenorol o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2018:**

**Gwella'r defnydd o gronfa ddata'r Gofrestr o Droseddwyr Treisgar a Throseddwyr Rhyw (ViSOR) i rannu gwybodaeth gyda'r heddlu a charchardai.**

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Erbyn hyn mae rhan fwyaf o staff PDU Gwent wedi cael eu fetio ar gyfer ViSOR ond o ganlyniad i effaith uno a Covid-19, mae'r hyfforddiant hwnnw a'i defnydd ehangach wedi arafu. Mae gan yr holl staff gweinyddol fynediad ond dywedwyd wrthym eu bod naill ai ddim yn ei defnyddio o gwbl neu ddim yn ei defnyddio fel y dylent.

| | |
|---|---|
| **Categoreiddio** | **Rhywfaint o gynnydd** |
| **Angen gwella o hyd?** | **Oes** |

**Argymhelliad o arolygiad blaenorol o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2018:**

Sicrhau bod unigolion yn gallu dechrau rhaglenni achrededig yn brydlon ar ôl y ddedfryd, neu cyn gynted ag y byddant yn barod i wneud hynny.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Rydym yn derbyn bod uno a phandemig Covid-19 wedi atal darpariaeth rhaglenni achrededig yn sylweddol. Ond er hynny, mae dechrau rhaglenni achrededig yn PDU Gwent yn dal yn wael. Mae ôl-groniadau a rhestrau aros sylweddol. Nid yw 46 allan o 56 o ofynion rhaglenni achrededig i unigolion a gafwyd yn euog o drosedd ryw wedi dechrau eto. Hefyd, nid yw 153 allan o 201 o ofynion rhaglenni achrededig ar gyfer unrhyw beth ar wahân i drosedd ryw wedi dechrau.

| | |
|---|---|
| **Categoreiddio** | **Dim cynnydd** |
| **Angen gwella o hyd?** | **Oes** |

**Argymhelliad o arolygiad blaenorol o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2018:**

Sicrhau y gwneir defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau Swyddogion Gwasanaeth Prawf (PSO).

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Mae prinder enbyd o swyddogion gwasanaethau prawf yn PDU Gwent. Mewn adolygiad o'r llwyth gwaith, canfu pennaeth y PDU anghyfartaledd lle roedd swyddogion prawf yn dal achosion swyddogion gwasanaethau prawf, ond mae'r PDU yn prin o 12 swyddog gwasanaethau prawf.
- Yn ystod haf y llynedd, recriwtiodd y PDU 12 swyddog gwasanaethau prawf ond dim ond pump o'r 12 sy'n weddill; aeth rhai i rolau eraill ac roedd eraill yn cael trafferth setlo ac yn teimlo eu bod wedi'u llethu. Felly mae cyfradd gadael PDU Gwent ar gyfer swyddogion gwasanaethau prawf yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Mewn ymateb, mae pennaeth y PDU wedi derbyn bod gweithio gartref yn heriol i staff. Ar ôl eu fetio, bydd y swyddogion gwasanaethau prawf newydd eu recriwtio yn gweithio yn y swyddfa bum diwrnod yr wythnos.

| | |
|---|---|
| **Categoreiddio** | **Dim cynnydd** |
| **Angen gwella o hyd?** | **Oes** |

# Atodiad dau – Data

**Mae'r data yn yr adran hon ac adrannau dilynol yn cael eu darparu'n bennaf gan y sefydliad. Cânt eu darparu gyda chafeatau ynghylch eu dibynadwyedd, er iddynt gael eu gwirio gan ddefnyddio cofnodion cynllunio gweithlu mewnol.**

| **Data staffio allweddol**[10] | |
|---|---|
| Cyfanswm y staff (cyfwerth ag amser llawn) (FTE)) | 160 |
| Cyfanswm yr uwch swyddogion prawf | 10 |
| Cyfanswm y swyddogion prawf (FTE) | 55 |
| Cyfanswm y swyddogion gwasanaethau prawf (FTE) | 50 |
| Cyfradd y swyddi gwag (cyfanswm y swyddi heb eu llenwi fel canran o gyfanswm y staff) | -11% |
| Cyfradd y swyddi gwag ar gyfer y radd uwch swyddog prawf yn unig (cyfanswm y swyddi heb eu llenwi fel canran o gyfanswm y swyddi uwch swyddog prawf sy'n ofynnol) | -2% |
| Cyfradd y swyddi gwag ar gyfer y radd swyddog prawf yn unig (cyfanswm y swyddi heb eu llenwi fel canran o gyfanswm y swyddi swyddog prawf sy'n ofynnol) | -9% |
| Cyfradd y swyddi gwag ar gyfer y radd swyddog gwasanaethau prawf yn unig (cyfanswm y swyddi heb eu llenwi fel canran o gyfanswm y swyddi swyddog gwasanaethau prawf sy'n ofynnol) | 11% |
| Cyfradd absenoldeb salwch (diwrnodau cyfartalog a gollwyd yn ystod y 12 mis blaenorol ar gyfer yr holl staff) | 7.4 |
| Cyfradd gadael staff (canran o'r holl staff a adawodd yn ystod cyfnod 12 mis) | 18.4% |
| Cyfradd gadael staff ar y radd uwch swyddog prawf yn unig (canran o'r holl staff gradd uwch swyddog prawf a adawodd yn ystod cyfnod 12 mis) | 20% |
| Cyfradd gadael staff ar y radd swyddog prawf yn unig (canran o'r holl staff gradd swyddog prawf a adawodd yn ystod cyfnod 12 mis) | 18.1% |

[10] Data a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Prawf.

| | |
|---|---|
| Cyfradd gadael staff ar y radd swyddog gwasanaethau prawf yn unig (canran o'r holl staff gradd swyddog gwasanaethau prawf a adawodd yn ystod cyfnod 12 mis) | 30.21% |
| **Data llwyth achosion a llwyth gwaith** | |
| Llwyth achosion cyfartalog fesul swyddog prawf (FTE)[11] | 41.39 |
| Llwyth achosion cyfartalog fesul swyddog gwasanaethau prawf (FTE)[11] | 37.46 |
| Cyfartaledd yr adnodd rheoli llwyth gwaith fesul swyddog prawf | 30.21 |
| Cyfartaledd yr adnodd rheoli llwyth gwaith fesul swyddog gwasanaethau prawf | 41.39 |
| Cyfran y swyddogion prawf (neu gyfwerth) yn y PDU hon sy'n dweud nad yw'n bosib rheoli eu llwyth gwaith[12] | 74% |
| Cyfran y swyddogion gwasanaethau prawf (neu gyfwerth) yn y PDU hon sy'n dweud nad yw'n bosib rheoli eu llwyth gwaith[12] | 56% |

| 2.1 Gwaith llys | |
|---|---|
| **A yw'r cyngor a'r wybodaeth cyn-dedfrydu a ddarperir i'r llys yn ddigon dadansoddol a phersonol i'r unigolyn, i gefnogi penderfyniadau'r llys?[13]** | |
| A yw'r wybodaeth a'r cyngor yn defnyddio digon ar y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am ddiogelu plant a cham-drin domestig? | 36% |
| A yw'r unigolyn yn cael ei gynnwys yn ystyrlon yn y gwaith o baratoi'r adroddiad, ac a yw ei safbwyntiau'n cael eu hystyried? | 94% |
| A yw'r cyngor yn ystyried ffactorau sy'n gysylltiedig â'r tebygolrwydd o aildroseddu? | 94% |
| A yw'r cyngor yn ystyried ffactorau sy'n gysylltiedig â risg o niwed? ** | 88% |

[11] Data a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Prawf.

[12] Data arolygu Arolygiaeth Prawf EM.

[13] Dim ond mewn achosion lle mae adroddiad diweddar wedi cael ei baratoi yn y PDU a arolygwyd y gofynnir y cwestiwn hwn.

| | |
|---|---|
| A yw'r cyngor yn ystyried cymhelliant yr unigolyn a'i barodrwydd i newid? | 88% |
| A yw'r cyngor yn ystyried amrywiaeth ac amgylchiadau personol yr unigolyn? | 100% |
| A yw'r cyngor yn ystyried effaith y drosedd ar ddioddefwyr hysbys neu y gellir eu hadnabod? ** | 58% |
| A wneir cynnig priodol i'r llys? ** | 94% |
| A oes cofnod digonol o'r cyngor a roddwyd, a'r rhesymau drosto? | 97% |

Nid yw'r promtiau a nodir gyda * yn berthnasol mewn achosion gwaith di-dâl yn unig.

Nid yw'r cwestiynau a nodir gyda ** yn berthnasol ym mhob achos, a dim ond atebion cadarnhaol a adroddir yma.

| **2.2. Asesu** | **Dedfrydau cymunedol** | **Dedfrydau ôl-ryddhau** | **Pob achos** |
|---|---|---|---|
| **A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r person sydd ar brawf?** | | | |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi cymhelliant a pharodrwydd y person sydd ar brawf i ymgysylltu a chydymffurfio â'r ddedfryd? | 63% | 73% | 66% |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi nodweddion gwarchodedig yr unigolyn ac yn ystyried yr effaith a gaiff y rhain ar ei allu i gydymffurfio ac ymgysylltu â darpariaeth gwasanaethau? | 65% | 68% | 66% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A yw'r asesiad yn dadansoddi amgylchiadau personol yr unigolyn, ac yn ystyried yr effaith y mae'r rhain yn ei chael ar eu gallu i gydymffurfio ac ymgysylltu â gwasanaethau sy'n cael eu darparu? | 70% | 81% | 74% |
| A yw'r person sydd ar brawf yn cymryd rhan ystyrlon yn eu hasesiad, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried? | 75% | 73% | 74% |
| **A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu ac ymatal rhag troseddu?** | | | |
| A yw'r asesiad yn nodi ac yn dadansoddi ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu? | 69% | 77% | 72% |
| A yw'r asesiad yn nodi cryfderau a ffactorau amddiffynnol y person sydd ar brawf? ** | 80% | 68% | 76% |
| A yw'r asesiad yn defnyddio digon ar y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael? | 68% | 64% | 66% |
| **A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?** | | | |
| A yw'r asesiad yn nodi ac yn dadansoddi'n glir unrhyw risg o niwed i eraill, gan gynnwys nodi pwy sy'n wynebu risg a natur y risg honno? | 41% | 73% | 52% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymddygiad ac euogfarnau blaenorol, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol? | 40% | 64% | 48% |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi unrhyw risgiau a phryderon penodol sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a phosib? ** | 35% | 59% | 44% |

| **2.3. Cynllunio** | **Dedfrydau cymunedol** | **Dedfrydau ôl-ryddhau** | **Pob achos** |
|---|---|---|---|
| **A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r person sydd ar brawf?** | | | |
| A yw'r person sydd ar brawf yn cymryd rhan ystyrlon yn eu hasesiad, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried? | 53% | 64% | 56% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o ystyriaeth i ffactorau amrywiaeth yr unigolyn a allai effeithio ar ymgysylltu a chydymffurfio? ** | 45% | 41% | 44% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o sylw i amgylchiadau personol yr unigolyn a allai effeithio ar ymgysylltu a chydymffurfio? ** | 63% | 59% | 61% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi ystyriaeth ddigonol i barodrwydd a chymhelliant yr unigolyn sydd ar brawf i newid a allai effeithio ar ymgysylltu a chydymffurfio? | 65% | 77% | 69% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A yw'r gwaith cynllunio'n nodi sut bydd holl ofynion y ddedfryd neu'r drwydded/goruchwyliaeth ar ôl dedfryd yn cael eu bodloni o fewn yr amserlenni sydd ar gael? | 68% | 55% | 63% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n pennu lefel, patrwm a math o gyswllt sy'n ddigonol i ymgysylltu â'r unigolyn ac i gefnogi effeithiolrwydd ymyriadau penodol? | 70% | 73% | 71% |
| **A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad?** | | | |
| A yw'r cynllunio'n adlewyrchu ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu yn ddigonol ac yn blaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf hanfodol? * | 55% | 68% | 60% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n adeiladu ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol yr unigolyn, gan ddefnyddio ffynonellau cymorth posib? ** | 58% | 36% | 50% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad? | 73% | 77% | 74% |
| **A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?** | | | |
| A yw'r gwaith cynllunio'n adlewyrchu ffactorau risg o niwed yn ddigonol ac yn blaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf hanfodol? ** | 33% | 59% | 42% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r ymyriadau adeiladol a/neu gyfyngol angenrheidiol i reoli'r risg o niwed? ** | 43% | 68% | 52% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n gwneud cysylltiadau priodol â gwaith asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r person sydd ar brawf ac unrhyw gynlluniau aml-asiantaeth? ** | 35% | 50% | 40% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n nodi trefniadau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i reoli'r risgiau hynny sydd wedi'u nodi? ** | 35% | 55% | 42% |

| **2.4 Gweithredu a darparu** | **Dedfrydau cymunedol** | **Dedfrydau ôl-ryddhau** | **Pob achos** |
|---|---|---|---|
| **A yw'r ddedfryd neu'r cyfnod ar ôl carchar yn cael ei weithredu'n effeithiol gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r person sydd ar brawf?** | | | |
| A yw gofynion y ddedfryd yn dechrau'n brydlon, neu ar adeg briodol? | 53% | 68% | 58% |
| A roddir digon o ffocws ar gynnal perthynas waith effeithiol â'r person sydd ar brawf, gan ystyried ei anghenion amrywiaeth? | 60% | 68% | 63% |
| A yw digon o ymdrechion yn cael eu gwneud i alluogi'r unigolyn i gwblhau ei ddedfryd, gan gynnwys hyblygrwydd i roi ystyriaeth briodol i'w amgylchiadau personol? | 58% | 86% | 68% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A yw risgiau o beidio â chydymffurfio yn cael eu nodi a'u datrys yn brydlon er mwyn lleihau'r angen am gamau gorfodi? ** | 33% | 45% | 37% |
| A yw camau gorfodi'n cael eu cymryd pan fo hynny'n briodol? ** | 40% | 59% | 47% |
| A oes digon o ymdrechion wedi'u gwneud i ail-ymgysylltu â'r unigolyn ar ôl camau gorfodi neu alw'n ôl? ** | 28% | 50% | 36% |
| **A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi ymataliad yn effeithiol?** | | | |
| Ai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i ddilyniant a'r amserlenni sydd ar gael? | 30% | 59% | 40% |
| Lle bynnag y bo modd, a yw darparu gwasanaethau'n adeiladu ar gryfderau'r unigolyn ac yn gwella ffactorau amddiffynnol? ** | 45% | 45% | 45% |
| A yw'r gwaith o gynnwys sefydliadau eraill wrth ddarparu gwasanaethau wedi'i gyd-drefnu'n dda? * ** | 28% | 41% | 32% |
| A yw unigolion allweddol ym mywyd y person sydd ar brawf yn ymgysylltu lle bo hynny'n briodol i gefnogi eu hymataliad? * ** | 15% | 27% | 19% |
| A yw lefel a natur y cyswllt yn ddigon i leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad? | 40% | 64% | 48% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A yw gwasanaethau lleol yn cael eu defnyddio i gefnogi a chynnal ymataliad yn ystod y ddedfryd a thu hwnt? * ** | 25% | 64% | 39% |
| **A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?** | | | |
| A yw lefel a natur y cyswllt a gynigir yn ddigon i reoli a lleihau'r risg o niwed? ** | 38% | 59% | 46% |
| A roddir digon o sylw i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posib? ** | 18% | 55% | 31% |
| A yw cyfranogiad asiantaethau eraill o ran rheoli a lleihau'r risg o niwed wedi'i gyd-drefnu'n ddigonol? * ** | 15% | 36% | 23% |
| A yw unigolion allweddol ym mywyd y person sydd ar brawf yn ymgysylltu lle bo hynny'n briodol i gefnogi rheoli'r risg o niwed yn effeithiol? * ** | 15% | 27% | 20% |
| A gynhelir ymweliadau cartref lle bo angen i gefnogi'r gwaith o reoli'r risg o niwed yn effeithiol? * ** | 10% | 36% | 20% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Promtiau sy'n berthnasol i achosion ar ôl carchar yn unig:** | | | |
| Achosion ar ôl carchar yn unig:<br>A wnaeth y rheolwr troseddwyr cymunedol sicrhau lefel gymesur o gyswllt gyda'r carcharor cyn ei ryddhau? | 3% | 45% | 18% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Achosion ar ôl carchar yn unig:<br>A wnaeth y rheolwr troseddwyr cymunedol roi sylw i'r prif anghenion ailsefydlu neu ymatal cyn rhyddhau? | 0% | 64% | 23% |
| Achosion ar ôl carchar yn unig:<br>A wnaeth y rheolwr troseddwyr cymunedol fynd i'r afael ag anghenion risg allweddol o niwed cyn rhyddhau? | 0% | 59% | 21% |

| 2.5 Adolygu | Dedfrydau cymunedol | Dedfrydau ôl-ryddhau | Pob achos |
|---|---|---|---|
| **A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi cydymffurfedd ac ymgysylltiad y person sydd ar brawf?** | | | |
| A yw'r gwaith adolygu'n ystyried lefelau cydymffurfio ac ymgysylltu, ac unrhyw rwystrau perthnasol, gyda'r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r cynllun gwaith parhaus? ** | 50% | 50% | 50% |
| A yw'r person sydd ar brawf yn cymryd rhan ystyrlon yn y gwaith o adolygu ei gynnydd a'i ymgysylltu? | 39% | 50% | 43% |
| A yw adolygiadau ysgrifenedig yn cael eu cwblhau fel sy'n briodol fel cofnod ffurfiol o gamau gweithredu i weithredu'r ddedfryd? ** | 39% | 73% | 52% |
| **A yw'r gwaith adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad?** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A yw’r gwaith adolygu’n nodi ac yn mynd i'r afael â newidiadau mewn ffactorau cysylltiedig ag ymddygiad troseddol, gyda’r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i’r cynllun gwaith parhaus? * | 34% | 57% | 42% |
| A yw’r gwaith adolygu’n canolbwyntio’n ddigonol ar adeiladu ar gryfderau a gwella ffactorau amddiffynnol y person sydd ar brawf? ** | 34% | 29% | 32% |
| A yw’r gwaith adolygu’n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy’n gweithio gyda’r person sydd ar brawf? ** | 26% | 48% | 34% |
| A yw adolygiadau ysgrifenedig yn cael eu cwblhau fel sy’n briodol fel cofnod ffurfiol o gynnydd tuag at ymatal? ** | 34% | 68% | 47% |
| **A yw’r gwaith adolygu yn canolbwyntio’n ddigonol ar ddiogelu pobl eraill?** | | | |
| A yw’r gwaith adolygu’n nodi ac yn mynd i'r afael â newidiadau mewn ffactorau cysylltiedig â’r risg o niwed, gyda’r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i’r cynllun gwaith parhaus? ** | 21% | 29% | 23% |
| A yw’r gwaith adolygu’n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy’n ymwneud â rheoli’r risg o niwed? ** | 15% | 29% | 20% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A yw'r person sydd ar brawf (a, lle bo hynny'n briodol, yn unigolion allweddol yn eu bywyd) yn ymwneud yn ystyrlon ag adolygu'r risg o niwed? * ** | 23% | 14% | 20% |
| A yw adolygiadau ysgrifenedig yn cael eu cwblhau fel y bo'n briodol fel cofnod ffurfiol o reoli'r risg o niwed? ** | 36% | 59% | 44% |

| Canlyniadau | Dedfrydau cymunedol | Dedfrydau ôl-ryddhau | Pob achos |
|---|---|---|---|
| **A yw'r canlyniadau cynnar yn dangos bod cynnydd rhesymol wedi'i wneud, yn unol ag anghenion personol y sawl sydd ar brawf?** | 28% | 38% | 31% |
| A fu gwelliannau yn y ffactorau hynny sydd â'r cysylltiad agosaf â throseddu wrth ddatblygu cryfderau a mynd i'r afael ag anghenion? | 20% | 23% | 20% |
| A fu gostyngiad yn y ffactorau sydd â'r cysylltiad agosaf â'r risg o niwed i eraill? ** | 13% | 14% | 13% |
| A fu gostyngiad mewn troseddu? | 13% | 14% | 13% |

# Atodiad tri – Dolenni Gwe

Mae rhagor o wybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr arolygiad hwn ar gael ar ein gwefan, gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

Ein gwaith (justiceinspectorates.gov.uk)

Mae'r eirfa a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn ar gael ar ein gwefan, gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

Geirfa (justiceinspectorates.gov.uk)